# Cynnwy


## Pennod 1

Gorolwg y Prif Arolygydd 1

## Pennod 2

Y Strategaeth Ansawdd a Rheoli Perfformiad 7

## Pennod 3

Gwasanaethau Oedolion 23

## Pennod 4

Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd 41

## Pennod 5

Arolygu 55

## Atodiad A

Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol 59

## Atodiad B

Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2000/01 61

## Atodiad C

Rhaglen Arolygu 63

## Atodiad D

Strwythur 65

## Ychwanegiad

Trydydd Adroddiad Blynyddol Grŵp Ymgynhorol yr Arolygiaeth, am flwyddyn 2000/01 67

Ffurfiau eraill - Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn print bras, neu ar ffurfiau eraill, os oes angen. Mae fersiynau sain a data sy'n ymwneud â'r graffiau ar gael hefyd.

Cysylltwch ag

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5655

neu e-bost: ssiw@wales.gsi.gov.uk

# 1 Gorolwg y Prif Arolyg



**1.1** Arweinyddiaeth a phartneriaeth yw dwy thema'r adroddiad hwn, fy nhrydydd adroddiad blynyddol yn Brif Arolygydd. Mae'r naill fel y llall yn hanfodol: arweinyddiaeth i lunio'r weledigaeth, i hybu'r achos, i roi cyfeiriad ac i yrru datblygiadau; partneriaeth i harneisio'r adnoddau, y medrau a'r cydweithrediad y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, i warchod pobl fregus yn effeithiol ac i hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiad cymdeithasol.

**1.2** Mae'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn parhau i osod cyfeiriad a thôn ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan yn glir ei dull o wella gwasanaethau cymdeithasol: disgwyliadau clir o safonau uwch a darpariaeth mwy ymatebol, cefnogaeth ar gyfer gwella drwy fentrau ac adnoddau gan y Cynulliad, partneriaeth adeiladol gyda phawb sy'n ymwneud â'r maes a mynd i'r afael â phroblemau mewn ysbryd chwilio am atebion yn hytrach na bwrw bai.

**1.3** Mae'r agenda a osodwyd yn y papur gwyn *Adeiladu ar Gyfer y Dyfodol* ym 1999 wedi ei ddwyn ymlaen ac fe chwaraeodd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) ran bwysig yn y gwaith hwn. Wrth wneud hynny rydym, ar adegau, ac felly y dylai hi fod, yn annibynnol – yn ein harolygiadau, ein cyngor proffesiynol a'n harfarniad ehangach o wasanaethau lleol. Y rhan fwyaf o'r amser rydym yn gweithio gydag eraill – weithiau mewn rôl arweiniol, weithiau yn bartneriaid cydradd, weithiau yn cefnogi – i hyrwyddo datblygiad ac i helpu'r sawl sy'n uniongyrchol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Rydym:-

- wedi arwain ar y gwaith i sefydlu Cyngor Gofal Cymru ym mis Hydref 2001, i reoleiddio'r gweithlu a gwella hyfforddiant ac ansawdd yr holl bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol
- wedi cwblhau hanner ein rhaglen bum mlynedd i arolygu pob awdurdod lleol, gan gynnwys y cyd-adolygiadau a gomisiynir gennym mewn partneriaeth â'r Comisiwn Archwilio
- wedi cyflwyno rhaglen arolygiadau Gwerth Gorau mewn gwasanaethau cymdeithasol
- wedi gweithredu ein rhaglen ddatblygu sydd wedi ei hanelu at gryfhau gwasanaethau i blant ac oedolion

- wedi dwyn gwaith ymlaen i wella rheoli ac arfarnu perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol .

**1.4** Rydym hefyd wedi cyfrannu at:-

- baratoi ar gyfer sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ym mis Ebrill 2002, gyda'r bwriad o wella rheolaeth ac arolygiaeth gwasanaethau gofal
- datblygu gwaith ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Iechyd fel y datganwyd yn *Gwella Iechyd yng Nghymru*
- gwella gwasanaethau i blant, yn dilyn argymhellion adroddiad Waterhouse*
- cefnogi mesurau'r Llywodraeth ar ofal tymor hir pobl hŷn mewn ymateb i'r Comisiwn Brenhinol.

**1.5** Mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn fe gewch ddarllen am y rhain a llawer o fentrau eraill, megis cefnogaeth i gynhalwyr, mabwysiadu, tai wedi eu cefnogi, a'r rhaglen ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol, a luniwyd i wella byd y rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol.

**1.6** Mae gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol personol wedi cynyddu'n gronnus oddi ar 1996-97 o 15% ar brisiau cyson, o'i gymharu â 5% i wariant awdurdodau lleol yn eu cyfanrwydd. Mae gwasanaethau cymdeithasol personol bellach yn cyfrif am gyfran o 18.2% o gyfanswm gwariant awdurdodau lleol, o'i gymharu â 16.7% yn 1996-7. Mae'r pwysau ar wariant hefyd wedi cynyddu, ac mae lefel datblygu'r gwasanaethau a ddaeth yn bosibl drwy'r cynnydd yma mewn cyllideb wedi ei gyfyngu gan gynnydd anochel mewn gorbenion a chan gyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft dan y rhaglen gofal cymunedol. Mae ffordd hir i fynd o hyd cyn cyflawni yr ystod a'r patrymau o ofal cymdeithasol y mae eu hangen i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Er hynny, mae'r £48 miliwn ychwanegol a ddarparwyd gan y Cynulliad yn 2000-1 wedi gwneud gwahaniaeth real.

**1.7** Mae gweithlu o ansawdd yn rhagamod hollbwysig i gyflawni'r amcan o gael gwasanaethau uchel eu hansawdd ac ymatebol. Bu pryder fodd bynnag bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau preifat a gwirfoddol yn profi anawsterau gyda recriwtio a chadw staff. Gofynnodd y Gweinidog i mi gymryd arweiniad arbennig wrth sefydlu a chadeirio grŵp gorchwyl i ddatblygu fframwaith strategol i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae saith deg mil o bobl yn gweithio mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru, mewn amrywiaeth eang o swyddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, a sefydliadau preifat a gwirfoddol. Maent yn darparu gofal i dros 100,000 o bobl mewn angen. Rhaid

* Report of the Tribunal of Inquiry into the Abuse of Children in Care in North Wales

cynnal eu nifer, eu hansawdd, eu hymrwymiad a'u morâl yn aml mewn amgylchiadau anodd. Yn y blynyddoedd diweddaraf, mae galwadau ar y gwasanaethau ac anawsterau recriwtio a chadw i gyd wedi cynyddu.

**1.8** Mae'r grŵp gorchwyl wedi gwneud cynigion ar gyfer gweithredu (trafodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn), sydd ar hyn o bryd yn cael eu gweithredu. Maent wedi eu seilio ar gasgliad clir y grŵp mai'r unig ffordd i wella sefyllfa'r gweithlu yw drwy weithredu partneriaeth gadarn rhwng:

- cyflogwyr ym mhob sector
- y sawl sy'n gyfrifol am hyfforddi a datblygu staff
- y staff eu hunain a'u cynrychiolwyr
- llywodraeth leol, a'r
- Cynulliad Cenedlaethol.

**1.9** Edrychaf ymlaen at weld y partneriaethau rhwng pawb sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol yn derbyn blaenoriaeth ac at ddulliau gwell o recriwtio a chadw yn y gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru.

**1.10** Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd *Strategaeth Ansawdd ar gyfer Gofal Cymdeithasol* gennym ar gyfer ymgynghori, wedi ei drafftio gan yr Adran Iechyd yn Lloegr. Roedd i hon dair prif thema:

- gwella'r sail wybodaeth ar gyfer ymarfer, drwy greu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth (SCIE) – y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bartner iddo gyda'r Adran Iechyd
- cyflwyno rhagoriaeth ar lefel leol
- cryfhau'r gweithlu drwy wella hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu.

**1.11** Cynhyrchodd yr ymgynghoriad ymateb cadarnhaol ac mae llawer o gynigion bellach yn cael eu gweithredu. Wrth gyflwyno rhagoriaeth ar lefel leol mae themâu arweinyddiaeth a phartneriaeth yn dod yn fwyaf amlwg.

**1.12** Yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn mynd i'r afael â'u cyfrifoldebau dros wasanaethau cymdeithasol. Weithiau mewn ymateb i sioc gas y bu hynny, megis adroddiad anffafriol neu gyhoeddusrwydd i broblemau. Yng nghwrs newidiadau ehangach, fel rhan o foderneiddio llywodraeth leol y digwyddodd y rhan amlaf. Bu'r newid yn anghyfforddus weithiau, gydag amharu ar drefniadau rheoli. Weithiau fe newidiodd batrymau trefniadau a chyfrifoldeb yn arwyddocaol. Mewn rhai achosion mae'r newidiadau wedi cael hyd i atebion newydd i broblemau cyflwyno gofal cymdeithasol mewn awdurdodau llai o faint. Mewn eraill maent wedi codi cwestiynau newydd ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau.

**1.13** Mae darganfyddiadau Arolygiadau AGCC a'n rhaglen ni o gyd-adolygu awdurdodau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi nodi'r sialensau y mae'n rhaid i awdurdodau eu cadw ym mlaenau eu meddyliau. Maent yn dangos yr angen:-

- am gyfarwyddyd ac arweinyddiaeth strategol
- am well gweithio corfforaethol
- i rymuso defnyddwyr gwasanaethau a chefnogi eu hannibyniaeth, yn hytrach na'u trin yn nawddoglyd
- am wasanaethau uchel eu hansawdd ar gael ar sail gyson
- am drefniadau i sicrhau'r gwasanaethau craidd y mae llawer o bobl yn dibynnu arnynt am gyfnod hir ac mewn rhai achosion gydol oes, ac sy'n gallu ymateb wrth i anghenion unigol newid
- am ragor o ganolbwyntio ar swyddogaeth comisiynwyr a llai ar fod yn ddarparwyr gwasanaethau
- am well gweithio mewn partneriaeth.

**1.14** Mae arweinyddiaeth gref a gweithio effeithiol mewn partneriaethau yn hanfodol os yw'r rhain i gael eu cyflawni yn ymarferol. Bydd arweinyddiaeth wleidyddol dda ar lefel leol yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol o ran diwallu anghenion rhai o aelodau mwyaf bregus a lleiaf lleisiol ein cymunedau ac o ran cyfrannu at les cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol. Bydd Cynghorwyr yn chwilio am wasanaethau sy'n ddilys ymatebol i anghenion cymunedol, sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Byddant yn gynyddol yn hybu strategaethau partneriaeth gyda chyrff eraill, yn enwedig y Gwasanaeth Iechyd.

**1.15** Bydd arweinyddiaeth a phartneriaeth gorfforaethol yn darparu'r amodau y gall gwasanaethau cymdeithasol gyflawni eu cyfrifoldebau arbennig ynddynt, gweithio gyda rhannau eraill o'r cyngor a chyfrannu at strategaethau ehangach.

**1.16** Mae gwasanaeth da ac arweinyddiaeth broffesiynol yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn set gymhleth o fusnesau sy'n gweithredu mewn amgylchedd sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth. Maent yn gofyn am fedrau rheoli o'r radd flaenaf. Rhaid i'r agenda strategol, gorfforaethol a rhyng-asiantaethol fod wedi ei chysylltu'n effeithiol gyda dealltwriaeth glir o anghenion defnyddwyr a chynhalwyr, cyflwyno gwasanaethau, ymarfer a pherfformiad proffesiynol da wrth ddarparu gwasanaethau i bobl mewn angen.

**1.17** Mae swyddogaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i fod yng nghanol strategaeth ansawdd – nid yn unig o ran rhoi arweiniad o fewn y gwasanaethau cymdeithasol eu hunain, ond hefyd

fel arweinydd-mewn-partneriaeth, o fewn y fframwaith gwleidyddol, corfforaethol a rhyng-asiantaethol, mewn strwythurau sefydliadol gwahanol, ac mewn gwasanaeth sy'n gweithio fwyfwy drwy ddarparwyr annibynnol ac mewn ymgynghoriad â defnyddwyr a chynhalwyr.

**1.18** Rhaid i'r Cyfarwyddwr ddod â'r pethau hynny sy'n uno gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd: y gofal am bobl mewn angen a'r rhai nad ydynt yn ffitio, medrau asesu anghenion, dod o hyd i'r ystod cywir o wasanaethau a gwneud yn siŵr eu bod yn briodol i'r unigolyn, priodoleddau ac anghenion penodol y gweithlu, anghenion rheoli'r gwasanaethau. Rhaid i'r Cyfarwyddwr hybu achos y gwasanaethau cymdeithasol a'r bobl y mae eu hangen arnynt, a dod â phersbectif y gwasanaethau cymdeithasol i strategaethau corfforaethol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr ddangos y medrau i weithio mewn partneriaeth, sydd wedi eu hen sefydlu mewn gwasanaethau cymdeithasol, mewn ystod o gynghreiriau.

**1.19** Mae gan y Cyfarwyddwr swyddogaeth allweddol o ran sicrhau safonau ansawdd ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Mae AGCC yn gweithio mewn partneriaeth agos gydag awdurdodau lleol i wella dulliau rheoli perfformiad a gwybodaeth rheoli. Cyn hir byddwn yn gweld canlyniadau hyn mewn dangosyddion cliriach, mwy cyson o berfformiad ledled Cymru. Bydd AGCC yn rhoi'r rhain a chanlyniadau arolygiadau ac adolygiadau gyda'i gilydd i ddarparu arfarniad llawnach, seiliedig ar dystiolaeth, o'r gwasanaethau. Yn y maes hwn hefyd byddwn yn ceisio arwain partneriaeth adeiladol er mwyn gwella.

**1.20** Mae'r ddwy thema arweinyddiaeth a phartneriaeth yn ganolog i'r adroddiad hwn. Maent yn ganolog i waith AGCC. Maent yn ganolog i'r gwelliannau rydym i gyd yn chwilio amdanynt, i godi ansawdd a safonau gwasanaethau, i warchod pobl fregus ac i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u cynhwysiad cymdeithasol.

## CYFLWYNIAD

**2.1** Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r agenda ansawdd. Mae llawer o themâu allweddol yn dod ynghyd i danlinellu'r ymrwymiad i wella ansawdd mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r themâu yma yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Cydraddoldeb
- Y Gweithlu a'r Cyngor Gofal
- Arolygiaeth Safonau Gofal
- Cwynion
- Rheoli Perfformiad

**2.2** Mae'r bennod hon yn nodi dull a chamau gweithredu'r Cynulliad a'r Arolygiaeth yn y meysydd hollbwysig yma.

## CYDRADDOLDEB

**2.3** Rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod wrth galon cyflawni cynhwysiad cymdeithasol a chymdeithas decach a mwy cyfartal. Bu'r nod o sicrhau cydraddoldeb i bob dinesydd gan gynnwys y mwyaf bregus yn un o werthoedd di-syfl gwaith gwasanaethau cymdeithasol dros flynyddoedd lawer. Bellach rhaid i'r nod hwn ddod yn weladwy drwy weithgareddau ymarferol a mwy nag a fu yn y gorffennol, mae angen parhau i "ddeall" a chodi a chadarnhau ymwybyddiaeth o effeithiau aflonyddu, gwahaniaethu ar yr unigolyn a'r gymuned gyfan. Mae deddfwriaeth ddiweddar wedi rhoi egni ychwanegol a'r modd i gyflawni'r nodau hyn ar draws ystod eang o wasanaethau a sefyllfaoedd y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â nhw.

**2.4** Mae'r polisi a'r ddeddfwriaeth ddiweddar i hyrwyddo cynhwysiad yn cwmpasu ystod o sefyllfaoedd. Mae hynny'n cynnwys:

- *Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000* sy'n helaethu rhychwant Deddf Cysylltiadau Hiliol 1996, gan wahardd camwahaniaethu ar sail hil ym mhob swyddogaeth gyhoeddus a rhoi dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Daeth y Ddeddf i rym ar 2 Ebrill 2001. Cynhyrchodd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol arweiniad i gynorthwyo i'w gweithredu.
- Daeth *Deddf Iawnderau Dynol 1998* i rym ar 2 Gorffennaf 2000. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau cyhoeddus i beidio â gweithredu'n anghydnaws â Chonfensiwn Ewrop ar Iawnderau Dynol. Er nad yw'r Ddeddf yn rhoi hawliau newydd, mae yn rhoi safle cadarnach i'r sawl sy'n teimlo bod ymyrraeth anghyfiawn wedi bod ar eu hawliau i herio ger bron llysoedd y DU.
- Gwnaeth *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995* hi'n anghyfreithlon o 1996 ymlaen i

ddarparwyr gwasanaethau drin pobl anabl yn llai ffafriol na phobl eraill am resymau'n gysylltiedig â'u hanabledd. Ers mis Hydref 1999 mae darparwyr gwasanaethau wedi gorfod gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, megis darparu rhagor o help, neu wneud newidiadau i'r ffordd maent yn darparu gwasanaethau. O 2004, mae'n bosibl y bydd rhaid i ddarparwyr gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol i nodweddion ffisegol eu hadeiladau i oresgyn rhwystrau ffisegol i fynediad. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau wirio a ydynt wedi gwneud yr addasiadau rhesymol y gofynnir amdanynt eisoes a chynllunio ymlaen i ddiwallu gofynion y Ddeddf yn llawn erbyn 2004.

**2.5** Mae'r holl fesurau yma yn helpu i hyrwyddo lles pobl fregus neu allgaeëdig a dylent gynorthwyo'r gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ystod eang o bobl a defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol o ran cael mynediad at ystod eang o wasanaethau. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb corfforaethol ond mae hi hefyd yn bwysig nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol eu hunain yn fodd i allgáu. Bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gynyddol yn defnyddio safonau a mesurau a darddodd o'r ddeddfwriaeth hon i adrodd ar Berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol yn y meysydd hyn.

## Y GWEITHLU

**2.6** Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ac ansawdd a digonoledd y gweithlu. Mae patrwm newidiol a chymhlethdod darpariaeth y gwasanaethau wedi arwain at newidiadau mawr yn y gweithlu dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r gweithlu yn ganolog os ydym i gyflawni ein hamcanion o wasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n gallu ymateb yn effeithiol i anghenion pobl.

**2.7** Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn fawr ac yn dal i dyfu. Ar hyn o bryd mae dros 70,000 o staff yn y sector gyda 53% ohonynt yn gweithio i gyflogwyr preifat a gwirfoddol. Bu cynnydd o 16% ym maint y gweithlu dros y 5 mlynedd diwethaf a rhagwelir twf o 2%-3% bob blwyddyn hyd 2006. Felly amcangyfrifir y bydd angen 2,000 o staff newydd bob blwyddyn hyd y dyddiad hwnnw. Gweithgaredd llafur-ddwys yw Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol i bobl. Yn nes ymlaen mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r rhaglen weithredu i ymdrin â phryderon ynghylch y gweithlu. Cyfyng yw'r data ar weithlu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei gyfanrwydd; am bobl a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol mae gennym fwyaf o wybodaeth.


**2.8** Dangosir y newid yn nifer a phatrwm staffio awdurdodau lleol dros yr 20 mlynedd diwethaf yn Ffigur 3. Wrth i awdurdodau lleol fynd yn fwy o gomisiynwyr gofal o'r sector annibynnol yn hytrach nag ymwneud â darparu gwasanaethau uniongyrchol mae nifer llai yn ôl cyfran yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau preswyl. Mae'r pwyslais cynyddol ar ofal cartref a gofal dydd hefyd wedi gweld rhagor o bobl yn cael eu cyflogi yn y sectorau hynny. Mae lefel y cymhwyster ar wahân i staff gwaith cymdeithasol (sydd bron i gyd wedi eu cymhwyso) yn parhau yn isel er ein bod yn adrodd yn nes ymlaen ar sut mae hynny'n dechrau newid.

**2.9** Bu pryderon cynyddol ynghylch anawsterau i recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mewn gwasanaethau i blant a theuluoedd mae hyn ddwysaf, ond mae'n effeithio ar bob grŵp o gleientau, ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol mewn sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'r problemau yn gymhleth ac ni ellir eu datrys yn syml nac ar fyrder. Gallant fod yn lleol, er enghraifft yn ganlyniad i gyflogwr newydd o sector arall yn denu gweithwyr cyflog a allai fel arall fod wedi bod yn weithwyr gofal cymdeithasol posibl. Gallant fod yn ehangach, fel mewn gwasanaethau i blant. Gall problemau weithiau godi dros gyfnod byr neu fod yn hwy eu parhad. Gall awdurdodau penodol brofi anawsterau ar adegau arbennig.


**2.10** Bu gostyngiad amlwg yn y niferoedd sy'n gwneud cais am hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol yn y blynyddoedd diwethaf ledled y DU. Er nad yw'r gostyngiad wedi bod mor amlwg yng Nghymru, mae'n arwyddocaol er hynny. Rhaid atal y duedd hon os yw lefelau darparu gwasanaethau i gael eu cynnal.

**2.11** Er mwyn ymdrin â'r materion anodd a chymhleth hyn, sefydlodd y Gweinidog grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Chwefror 2001 yn cael ei gadeirio gan y Prif Arolygydd.


**Ffigur 2.1: Cyfanswm staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol 1980-2000 (cyfateb i lawn amser)**




**Ffigur 2.2: Dosbarthiad staff mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, 1980 a 2000**



Ffigur 2.3: Staff cymwys, 30 Medi 2000 – canran y staff sydd â chymhwyster rhestredig




## Cylch gorchwyl y grŵp

**2.12** Roedd cylch gorchwyl gwaith y grŵp yn canolbwyntio ar bum maes penodol:

- partneriaeth gyda'r sector gofal cymdeithasol i gael deall maint a natur y broblem
- strategaeth ar gyfer gwella proffil a delwedd y sector, a dealltwriaeth ohono ymhlith y cyhoedd ehangach
- dichonoldeb partneriaethau cenedlaethol/lleol ar gyfer recriwtio a datblygu gyrfaol mewn gofal cymdeithasol, a all gynnwys datblygu cynllun cyllido i hyfforddeion
- gwaith gyda chyflogwyr ar draws y sector i'w helpu i ddatblygu polisïau da ar recriwtio a chadw gan ganolbwyntio ar yr adroddiad *Mae ar Bobl Angen Pobl* [1]
- cynnwys adolygiad o'r trefniadau cyllido cyfredol yn y cynigion ar gyfer bwrw ymlaen â diwygio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yng nghyd-destun yr ymatebion i'r ymgynghori ar y Strategaeth Ansawdd.

**2.13** Lansiwyd adroddiad y grŵp[2] gan y Gweinidog ym mis Medi 2001. Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn gosod strategaeth gweithredu ar draws yr holl feysydd hyn. Mae prif neges yr adroddiad yn glir. Os ydym am warchod ein gwasanaethau i bobl fregus, rhaid i ni wrthdroi tueddiadau'r gweithlu drwy weithredu cynaliadwy, tymor hir a rhaid cymryd y camau hynny gyda'n gilydd. Rhaid i gynllunwyr,

[1] Mae Angen Pobl ar Bobl. Rhyddhau Potensial Pobl sy'n Gweithio ym Maes Gwansanaethau Cymdeithasol (Ar gael gan y Comisiwn Archwilio)

[2] Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Faterion Gweithlu mewn Gofal Cymdeithasol

comisiynwyr, darparwyr, rheoleiddwyr a hyfforddwyr dderbyn y neges mai un sector gydag un gweithlu yw hwn a rhaid cael safonau cyson yn y gweithlu drwyddo draw. Does dim atebion cyflym. Mae'r argymhellion a osodwyd allan yn adroddiad y grŵp, ac a gymeradwywyd gan y Gweinidog, yn darparu'r fframwaith y mae ei angen arnom i ddatblygu ein strategaethau tymor hir.

**2.14** Mae'r Grŵp bellach yn datblygu cynllun gweithredu ac yn gwneud y trefniadau priodol ar gyfer trosglwyddo i Gyngor Gofal Cymru.

## Cyngor Gofal Cymru

**2.15** Mae AGCC wedi parhau â'i waith i sefydlu Cyngor Gofal Cymru. Daeth y corff cyhoeddus newydd hwn a noddir gan y Cynulliad i fodolaeth ar 1 Hydref 2001. Bydd yn gwella safonau yn y gweithlu gofal cymdeithasol i gyd drwy:

- osod safonau
- rheoleiddio'r gweithlu
- sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud.

**2.16** Bydd yn cymryd y cyfrifoldeb am hyfforddi oddi wrth y Cyngor Canolog dros Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW) ac yn datblygu cynllun cofrestru newydd ar gyfer y gweithlu. Bydd hwn yn cynnwys codau ymddygiad ac ymarfer i staff a chyflogwyr a graddol gofrestru gweithwyr i sicrhau bod grwpiau o staff yn cwrdd â safonau penodol o hyfedredd (gan gynnwys lefelau cymhwyster) ac ymddygiad (i gadw pobl anaddas allan).

## Rhaglen Cefnogi Hyfforddiant ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol personol: adroddiad cynnydd 2000-1

**2.17** Yn 2000 cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfanswm o £2,625,000 o grantiau Rhaglen Cefnogi Hyfforddiant (TSP) fel cyfraniad 70% i gyfanswm gwariant cymeradwy o £3,750,250. Mae'r rhaglen yn parhau'n boblogaidd iawn – defnyddiwyd 99.8% o'r grant cymeradwy terfynol. Drwyddi draw, am bob £1 o wariant a gefnogwyd gan y rhaglen ymrwymodd awdurdodau £1.09 arall o'u hadnoddau eu hunain. Roedd hynny'n ostyngiad o £1.19 y llynedd. Fodd bynnag roedd amrywiadau sylweddol yng nghyfraniadau awdurdodau unigol – yn amrywio o £0.26 i £1.50 i bob punt o wariant TSP.

**2.18** Y prif weithgareddau a chanlyniadau am y flwyddyn 2000 oedd:

- mynychodd tua 47,500 o staff neu ddefnyddwyr gwasanaethau ddigwyddiadau a gyllidwyd gan TSP, rhyw 12% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol

- enillwyd mwy na 1,150 o gymwysterau penodedig yn ystod y flwyddyn, dros 20% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

**2.19** Yn y pum mlynedd ers creu'r awdurdodau presennol:

- enillwyd dros 3,650 o ddyfarniadau penodedig
- bu cynnydd clir blynyddol yn lefelau cyflawniad
- mae rhai awdurdodau yn ymddangos fel petaent tuag wyth gwaith mor effeithiol ag eraill o ran troi cronfeydd hyfforddi yn ddyfarniadau.

## AROLYGIAETH SAFONAU GOFAL CYMRU

**2.20** *Darparodd Deddf Safonau Gofal 2000* reolydd newydd ar gyfer gofal cymdeithasol ac ar gyfer gofal iechyd preifat a gwirfoddol yng Nghymru. O 1 Ebrill 2002 Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW) – braich i'r Cynulliad Cenedlaethol – fydd y rheolydd ar gyfer yr holl wasanaethau sydd ar hyn o bryd yn cael eu rheoleiddio gan awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau iechyd lleol.

**2.21** Bydd estyniadau pwysig i rychwant y rheoleiddio. Bydd yr ystod eang o wasanaethau fydd yn cael eu cwmpasu yn cynnwys cartrefi gofal i oedolion, cartrefi plant, asiantaethau gofal cartref, asiantaethau nyrsys, asiantaethau maeth a mabwysiadu, canolfannau preswyl i deuluoedd, a gwarchod plant a gofal dydd arall i blant dan wyth. Bydd CSIW hefyd yn ymgymryd ag arolygiadau lles o ysgolion preswyl.

**2.22** Bydd CSIW yn rheoli cyfanswm o 7,700 o sefyllfaoedd. I wneud hynny bydd yn cyflogi rhyw 270 o staff, gan gynnwys bron i 200 sydd â'r hawl i drosglwyddo gyda'u gwaith o awdurdodau lleol ac iechyd. Bydd gan CSIW wyth swyddfa ranbarthol ledled Cymru, a thair swyddfa leol arall yn yr ardaloedd teneuaf eu poblogaeth. Bydd pencadlys CSIW yn Nantgarw ger Pontypridd.

## Prosiect AGCC ar weithdrefnau ac ymarfer

**2.23** Mae'r gwaith o greu CSIW yn cael ei redeg drwy ddau brosiect cysylltiedig. Prosiect gweithredu'r Grŵp Gofal Cymdeithasol ar CSIW sy'n darparu rheolaeth gyffredinol y prosiect, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd megis staffio, llety, technoleg gwybodaeth a chyllid. Ochr yn ochr â hyn mae'r cyfrifoldeb arweiniol am brosiect datblygu a fydd yn canolbwyntio ar agweddau mwy proffesiynol rheoleiddio gan AGCC. Mae'r prosiect gweithdrefnau ac ymarfer hwn yn galw am gydweithredu agos gyda'r Gyfadran Nyrsio a Chyfadrannau eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**2.24** Y pedair prif set o gynnyrch a ragwelir yw:

- 25 set o safonau isaf cenedlaethol

- dogfennaeth ac arweiniad i arolygwyr ledled y pedwar prif faes a gynhwysir yn y gwaith rheoleiddio – cofrestru, arolygu ac adrodd, trafod cwynion, a gorfodi
- tua dwsin o brotocolau i lywodraethu'r cysylltiadau rhwng CSIW ac asiantaethau cydffiniol.
- rhaglen o hyfforddiant ar gyfer y tua 180 o staff arolygu CSIW, yn seiliedig ar fframwaith y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cyntaf erioed i staff Cofrestru ac Arolygu a gymeradwywyd gan Sefydliad Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (TOPSS Cymru) ym mis Chwefror 2001, cwricwlwm cenedlaethol a ysgrifennwyd gan y Brifysgol Agored, a dyfarniad newydd a gymeradwywyd gan y Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2001.

**2.25** Mae'r Cynulliad yn benderfynol o greu fframwaith rheoleiddio cyson ledled Cymru sy'n adeiladu ar yr ymarfer gorau yn y 27 awdurdod sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd âr gwaith hwn. Rydym bob amser wedi cydnabod y bydd gwybodaeth a phrofiad rheolwyr, arolygwyr a gweinyddwyr sy'n ymwneud â rheoleiddio ar hyn o bryd yn hanfodol wrth lunio a pharatoi'r trefniadau newydd.

**2.26** I gyflwyno'r agenda sylweddol hon, mae AGCC wedi recriwtio wyth o benaethiaid presennol unedau arolygu i weithio'n rhan-amser ar y prosiect gweithdrefnau ac ymarfer. Swyddogaeth pob un o'r bobl a secondiwyd yw rheoli maes yn y prosiect, gan sicrhau'r cynnyrch cytunedig o fewn y cyfnodau amser y cytunwyd arnynt. Bydd eu prif orchwylion yn cynnwys:

- adolygu arweiniad a dogfennaeth sy'n bod eisoes, a distyllu ymarfer gorau ledled Cymru
- ystyried cynigion yn deillio o waith tebyg mewn mannau eraill yn y DU
- llunio drafft o gorff o arweiniad a dogfennaeth ar draws yr ystod o wasanaethau sydd i'w rheoleiddio
- ymgynghori ar y cynigion hyn drwy gyfres o grwpiau cyswllt yn ymwneud â staff Y&G ledled Cymru
- sicrhau maes-brofi'r deunyddiau drafft yma, a'u haddasu yng ngoleuni'r profi hwnnw
- cyfrannu at ddatblygu protocolau gydag asiantaethau cydffiniol
- adrodd ar gynnydd, a chyflwyno cynigion terfynol i'r Grŵp Gorchwyl ar Reoleiddio'r Gwasanaethau, sef prif gerbyd y Cynulliad ar gyfer sicrhau bod cyfranogwyr allanol yn rhan o waith datblygu'r Arolygiaeth newydd.

**2.27** Disgwylir y bydd y rheoliadau a'r safonau isaf cenedlaethol a fydd yn darparu'r sail ar gyfer gwaith CSIW yn cael eu gwneud gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2002. Y bwriad yw y bydd drafftiau gweithio terfynol holl gynnyrch prosiect AGCC (yn amodol ar unrhyw newidiadau yn

y rheoliadau a'r safonau wedi hynny) ar gael cyn hynny.

## Rhai cyfleoedd mawr

**2.28** Mae'r diwygio mawr hwn yn darparu set unigryw o gyfleoedd i wella rheolaeth y gwasanaethau, i wella amddiffyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu derbyn. Efallai mai'r pwysicaf o'r cyfleoedd hyn yw:

- y cyfle i reoleiddio gwasanaethau yn gyson ledled Cymru yn ôl y Safonau Cenedlaethol Isaf newydd a wnaed gan y Cynulliad
- y cyfle i gael gwared â ffiniau gwneud rhwng iechyd a gofal cymdeithasol mewn cartrefi sydd ar hyn o bryd wedi eu cofrestru'n ddeuol, a sicrhau mewnbwn gan weithwyr iechyd proffesiynol i reoleiddio gofal cymdeithasol, a'r gwrthwyneb
- y cyfle i wneud cofrestru'n ystyrlon mewn cartrefi bach i oedolion sydd wedi eu cofrestru ar hyn o bryd ond heb unrhyw ofyniad am arolygiad
- y cyfle i ddwyn rheoleiddio gwasanaethau gofal i blant ynghyd – o leiaf yng Nghymru
- y cyfle i godi safonau mewn meysydd pwysig o wasanaeth na chawsant eu rheoleiddio o'r blaen, megis darpariaeth gartref
- y cyfle i sicrhau cydymffurfio yng ngwasanaethau awdurdodau lleol ac yn y sector annibynnol ar yr un sail gyfreithiol
- y cyfle i ddod â'r holl waith cofrestru ynghyd dan un peirianwaith apelio, ac i elwa o gael corff unigol o "gyfraith achos"
- y cyfle i harneisio rheoleiddio'r gwasanaethau gyda'r trefniadau newydd ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol
- y cyfle i ddatblygu cysylltiadau cydlynol ledled Cymru gydag asiantaethau cydffiniol o Estyn i Gyngor Canolog y Deyrnas Unedig
- y cyfle i adeiladu barn gydlynedig ledled Cymru am unrhyw gwmnïau mawr unigol sy'n achos pryder, lle mae rheoleiddio ar hyn o bryd wedi ei hollti rhwng dwsin o asiantaethau llai eu maint
- y cyfle i hyrwyddo safonau uchel mewn ymarfer proffesiynol mewn gwaith rheoleiddio ac arolygu, ac i roi cydnabyddiaeth iddo drwy fframwaith ar lefel y DU o safonau galwedigaethol cenedlaethol, cwricwlwm cenedlaethol a dyfarniad cenedlaethol
- y cyfle i fwydo canlyniadau gwaith arolygu mewn sefyllfaoedd unigol yn uniongyrchol i ddatblygiad polisi'r Cynulliad Cenedlaethol.

## CWYNION

*"Gwrando ar Bobl": Ymgynghoriad ar wella gweithdrefnau cwyno gwasanaethau cymdeithasol*

**2.29** Mae'r Cynulliad wedi ymgymryd ag ymarfer ymgynghori ynghylch adolygu gweithdrefnau cwyno i oedolion a phlant a fydd yn eu gwneud yn gyson â'i gilydd. Bydd yr arweiniad terfynol a'r rheoliadau

diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn 2002 ac yn cynnwys:

- cryfhau'r arweiniad ynghylch swyddogaeth y swyddog cwynion wrth drafod cwynion
- cyflwyno proses dri cham i ddelio gyda phob cyflwyniad a chwyn oddi wrth blant ac oedolion
- cynnwys cam penderfynu dechreuol yn y weithdrefn gwyno o fewn darpariaethau *Deddf Plant 1989* ar gyfer ymdrin â chwynion yn ymwneud â phlant, fel ag a ddarperir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ar gyfer cwynion yn ymwneud â gwasanaethau oedolion
- newid yn y cyfyngiad amser af gyfer archwilio ffurfiol
- cyhoeddi arweiniad i eglurhau a diffinio swyddogaeth Personau Annibynnol yng ngweithdrefnau Deddf y Plant
- cryfhau arweiniad i fynnu bod awdurdodau yn rhewi penderfyniadau sy'n effeithio ar unigolyn, hyd nes ceir canlyniad unrhyw gwyn gofrestredig ynghylch penderfyniadau o'r fath
- cryfhau arweiniad ar weithdrefnau ar gyfer gweithredu penderfyniadau a wnaed yn dilyn gwrandawiad panel adolygu
- cyflwyno gweithdrefnau i wella monitro cwynion a gweithdrefnau cwynion
- eglurhau'r ffiniau rhwng gweithdrefnau awdurdodau lleol a'r NHS a swyddogaeth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, a
- gwaith pellach sy'n cael ei wneud ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

**2.30** Bwriad y mesurau hyn yw cael mwy o gysondeb wrth drafod cwynion ac annog ymyrraeth a phenderfyniad cynnar.

## RHEOLI PERFFORMIAD

### GWEITHREDU'R STRATEGAETH RHEOLI PERFFORMIAD

**2.31** Mae AGCC wedi bod yn datblygu cynllun rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn unol â'r ymrwymiad a roddwyd ym Mhapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol*. Bydd hwn yn darparu sylfaen ar gyfer fframwaith arfarnu i wasanaethau yng Nghymru, yn seiliedig ar y wybodaeth am berfformio y bydd yr awdurdodau eu hunain yn ei defnyddio i fonitro a gwella perfformiad.

**2.32** Yn y ffordd hon bydd prosesau rheoli perfformiad mewn awdurdodau ac arfarnu gan AGCC wedi eu cysylltu â'i gilydd i helpu i sicrhau bod awdurdodau a'r Cynulliad yn gallu gwella a moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ar y cyd. Amlinellir y dull hwn yn *'Rheoli Perfformiad: Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'* a gyhoeddwyd yn ddiweddar. http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicy/content/perform-w.pdf

**2.33** Nodau allweddol y strategaeth yw:

- datblygu gwybodaeth effeithiol am berfformiad
- gwella prosesau rheoli perfformiad
- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fodern.

**2.34** Y peirianweithiau allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth hon yw:

- gweithredu prosesau cynllunio newydd (wedi eu cefnogi gan arweiniad diwygiedig http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicy/content/pdf/guid_plan_w.pdf
- datblygu sgiliau rheoli perfformiad mewn awdurdodau
- datblygu gwell gwybodaeth am reoli perfformiad.

**2.35** Y prif gyflawniadau o ran gweithredu'r strategaeth hon hyd yn hyn yw:

### Datblygiadau gwybodaeth am berfformiad

**2.36** Mae set 2001/2 o ddangosyddion perfformiad (y manylir arnynt yn llawn yn y ddogfen strategaeth) wedi derbyn cefnogaeth gan:

- y trefniadau ar gyfer dychwelyd gwybodaeth
- cynhyrchu a dosbarthu arweiniad a diweddariadau.

**2.37** Mae gwefan syml hefyd wedi ei sefydlu i ddarparu diweddariadau i ddiffiniadau ac arweiniad: http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwalesdatacollection/care/care3.htm.

**2.38** Ymwelwyd â phob awdurdod i adolygu eu trefniadau a darparu unrhyw gymorth ar gyfer rheoli darpariaeth gwybodaeth. Yn ychwanegol, cynhelir ymarfer dychwelyd gwybodaeth fel 'rihyrsal terfynol' ar y cyd ag Uned Data Llywodraeth Leol i brofi'r broses casglu ac adrodd ar gyfer yr holl wybodaeth a ddychwelir.

### Dangosyddion perfformiad cytundeb polisi (PIs)

**2.39** Mae Cytundebau Polisi wedi eu llunio rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhain wedi cynhyrchu amrywiadau na ellir bob amser eu hesbonio drwy wahaniaethau yn narpariaeth gwasanaethau. Bydd rhai awdurdodau yn defnyddio'r flwyddyn gyntaf o'r broses Cytundebau Polisi i sicrhau eu bod yn casglu'r wybodaeth gywir ar gyfer y broses hon.

**2.40** Y broses yw'r arddangosiad cyntaf o sut y gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio i helpu awdurdodau a'r Cynulliad wrth arfarnu perfformiad mewn meysydd allweddol o gyflwyno gwasanaethau. Mae ymateb AGCC wedi caniatáu ar gyfer:

- yr amrywiadau yn safonau casglu data
- ystodau o lefelau o wasanaeth yn ddibynnol ar hanes ac amgylchedd cymdeithasol lleol.

**2.41** Bydd y gwersi a ddysgir o'r gwaith hwn yn porthi gwaith arfarnu yn y dyfodol, yn enwedig o ganlyniad i'r 'rihyrsal terfynol' hanner ffordd drwy'r flwyddyn.

### Datblygu modelau gwybodaeth

**2.42** Y datblygiadau canlynol a fydd yn llunio'r fframwaith ar gyfer gwybodaeth am reolaeth:

**2.43** Dangosyddion perfformiad canlyniad-gysylltiedig craidd - Mae'r rhain ar hyn o bryd wedi eu sefydlu fel y set o ddangosyddion Gwerth Gorau a Chytundeb Polisi yr adroddir arni'n genedlaethol. Maent wedi eu datblygu o wybodaeth a ddychwelwyd cyn hyn ac yn amlwg yn destun llawer o waith o ran ansawdd y data (ar y cyd â set 'Crynodeb Gwybodaeth Allweddol' y gofynnir amdani hefyd). Set gychwynnol fu hon erioed a bydd angen ei datblygu i dynnu gwell PIs 'allweddol' o'r gwaith a osodwyd allan uchod. Mae set dangosyddion Gwerth Gorau ar gyfer 2002/3 yn destun ymgynghori ar hyn o bryd a gobeithir peilotio dangosyddion newydd yn ystod 2002/3 i'w cynnwys mewn set ffurfiol yn 2003/4.

**2.44** Materion cwsmeriaid/ gwasanaeth: - Ni chafodd y maes hwn ddigon o sylw yn y gorffennol. Mae datblygiadau hyd yn hyn yn cynnwys:

- astudiaeth ymchwil i ystadegau gwasanaethau cymdeithasol lleol wedi ei llunio i ddynodi ffactorau a allai borthi asesiad y Cynulliad o'r angen am wariant ar y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall yr astudiaeth hon ddynodi rhai ffactorau poblogaeth allweddol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol
- adolygu datblygiadau yn arolygon boddhad cwsmeriaid ledled y DU.

**2.45** Prosesau gwasanaeth - Gofal cymunedol - Cynhaliwyd dau weithdy yn ystod haf 2001 gyda'r staff i lunio craidd cyffredin o brosesau busnes a all helpu i adnabod meysydd perfformio allweddol.

Gwasanaethau plant - Mae cynnydd yma yn fwy dibynnol ar ddatblygiadau mewn gwasanaethau allweddol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, yn enwedig:

- y fframwaith asesu
- System Integredig y Plant a modelau prosesau a data cysylltiedig
- Plant yn Gyntaf

**2.46** Datblygu gwasanaethau/ prosesau newid - Y bwriad yw mesur yr arloesi a'r datblygu sy'n digwydd mewn awdurdodau er mwyn cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae arloesi a datblygu yn ddangosyddion allweddol o fuddsoddiad awdurdod yn natblygiad y gwasanaethau.

**2.47** Bydd dau faes pwysig a chysylltiedig arall yn cefnogi'r gwaith hwn:

Datblygiadau NHS - Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar gydweithredu â datblygiadau NHS yn y maes hwn, nid lleiaf i borthi anghenion perfformiad Partneriaethau Strategol Iechyd a Lles arfaethedig a'r defnydd o gyllid 'hyblygeddau'. Mae'r datblygiadau a ddeilliodd o Gwella Iechyd yng Nghymru yn arwyddocaol iawn, yn enwedig gwaith grŵp gorchwyl a gorffen rheoli perfformiad. Mae'r grŵp hwn yn argymell defnyddio model perfformiad a gwybodaeth a fydd yn gydnaws â'r un a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Os mabwysiedir ef bydd yn darparu pont bwysig ar gyfer cyd-ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae gwaith pellach yn cael ei ddatblygu ar ddau faes cysylltiedig: :

- Rhannu / trosglwyddo gwybodaeth rhwng asiantaethau
- Materion cyfrinachedd a gwarchod data.

'Tŷ clirio' ar gyfer gofynion data - Y Cynulliad Cenedlaethol (drwy AGCC a'r Grŵp Polisi Cymdeithasol, gyda chefnogaeth glos y Gyfadran Ystadegau) sydd â'r rôl arweiniol o ran sefydlu gofynion data ar gyfer adrodd ar sail genedlaethol. Yn y cydweithrediad ag awdurdodau i ddatblygu dull cydlynedig fel bod y data a gesglir yn cyflawni cymaint o ddibenion ag sy'n bosibl mae cryfder y dull sy'n cael ei ddatblygu mewn rheoli perfformiad. Sefydlwyd Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol hefyd yn ystod y cyfnod hwn i gefnogi datblygu gwell setiau o ddata oddi wrth Awdurdodau Lleol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Cytunwyd felly i sefydlu 'tŷ clirio' data.

### Cronfa Datblygu Rheoli Perfformiad

**2.48** Lansiwyd cronfa datblygu rheoli perfformiad o £7.2 miliwn dros 3 blynedd gan y Cynulliad ym mis Mehefin 2001. Derbyniwyd cynigion dechreuol gan bob awdurdod.

**2.49** Mae'r rhain yn cynnwys dau ddatblygiad diddorol iawn:

cynnig gan naw awdurdod i gydweithredu i ddatblygu manyleb system;

cynnig gan saith awdurdod yn ne ddwyrain Cymru i weithio ar y cyd ar brosiect yn cwmpasu:

- set ddata gymunedol ei sail i borthi cynllunio gwasanaethau
- cefnogaeth ymarferol megis meincnodi, arweiniad i arfer da ac ati
- rhannu dulliau o 'gynllunio perfformiad'.

### Cynllun datblygu a hyfforddi rheoli perfformiad

**2.50** Bydd rhaglen hyfforddi:

- yn darparu ffocws ar staff rheoli gwasanaethau canol ac uwch

- yn helpu staff o wahanol awdurdodau i ddysgu gyda'i gilydd
- yn hyrwyddo Sefydliad Ewrop er Rheoli Ansawdd a fframwaith ar gyfer darparu'r modelau ar gyfer datblygu dulliau lleol.

## YMCHWIL A'R SEFYDLIAD GOFAL CYMDEITHASOL AR GYFER RHAGORIAETH (SCIE)

## Swyddfa Ymchwil a Datblygiad dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (WORD)

**2.51** Mae **WORD** wedi parhau i gefnogi gwaith i ddarparu sail o dystiolaeth ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae cymathiad llawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi galluogi WORD i wella'r berthynas waith ac arferion gwaith ar y cyd mewn gofal cymdeithasol, i sicrhau y gall y sail wybodaeth borthi penderfyniadau a pholisïau a datblygu ymarfer.

**2.52** Mae'r peirianweithiau yma'n cynnwys:

**Cynlluniau Grant Word:** cyllidodd WORD un ar bymtheg o grantiau ym meysydd blaenoriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dod i gyfanswm o £695,349, drwy barhau Cynllun Ymatebol Gofal Cymdeithasol a'r cynlluniau Grantiau Bychain.

**Y Rhaglen Ymchwil a Gomisiynwyd**: datblygodd WORD ei raglen gomisiynu ymhellach er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng ymchwil a datblygu polisi. Ffurfiwyd cydberthynas weithio dda rhwng WORD a'r canghennau sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol a phlant a theuluoedd. Trwy ddefnyddio'r gydberthynas hon dynodwyd proffil gwaith. Enillodd y prosiectau a gomisiynwyd o ganlyniad i hynny ymrwymiad ariannol o £219,117 a oedd yn cynnwys:

- astudiaeth i archwilio gweithredu'r fframwaith asesu ar gyfer plant yng Nghymru
- astudiaeth o weithgareddau cyfredol i gefnogi cynhalwyr yng Nghymru
- astudiaeth o Gynhalwyr Ifanc yng Nghymru: Persbectifau Plant a Phobl Ifanc a Materion Polisi a Gweithdrefnau
- astudiaeth o Gynhalwyr Ifanc yng Nghymru
- archwilio ymwneud â gwirfoddoli yng Nghymru
- adolygiad o lenyddiaeth yn ymwneud â dulliau diogel o atal plant sydd ag ymddygiad anodd i'w reoli.

**2.53** Crynhowyd rhaglen o feysydd posibl ar gyfer comisiynu gwaith pellach mewn ymgynghoriad â gwneuthurwyr polisi gofal cymdeithasol perthnasol a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i fwydo tystiolaeth ymchwil i bolisi yn y flwyddyn sy'n dod.

## Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol

**2.54** Parhaodd Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol WORD (SCNet), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol Cymru, i gyfarfod yn ystod y flwyddyn. Gwelir SCNet fel fforwm ar gyfer deialog rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a WORD. Bu'r rhwydwaith yn trafod materion megis mentrau i fwrw ymlaen â datblygu cynhwysedd ymchwil o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, i wella sianeli cyfathrebu drwy ddefnyddio gwefan WORD, y strategaeth Ymchwil a Datblygu newydd a sut gallai'r Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol awgrymu meysydd dechreuol o wasanaeth lle mae angen tystiolaeth.

## Unedau Cefnogi Ymchwil

**2.55** Mae pob uned wedi bod yn gweithredu am tua 18 mis. Gydol y cyfnod hwn mae'r Unedau Cefnogi Ymchwil wedi darparu cymorth a chyngor i unigolion a grwpiau mewn gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys ysgrifennu protocolau a chyhoeddiadau ymchwil, methodoleg ymchwil/llunio astudiaeth, ffynonellau cyllid a chael cyllid, agweddau ar gasglu data, dadansoddi a medrau arbenigol.

**2.56** Mae'r unedau wedi cwblhau'r rhaglenni hyfforddi mewn gwerthfawrogi/dulliau ymchwil a gontractiwyd yn ystod blwyddyn gyntaf eu gweithrediad. Bydd pob uned yn awr yn paratoi ei gynllun ar gyfer pecynnau gweithgaredd hyfforddi i hyrwyddo dealltwriaeth o ymchwil o fewn y sefydliadau gofal iechyd a chymdeithasol y mae ei gylch gorchwyl yn eu cwmpasu. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y dadansoddiad o anghenion hyfforddi y mae'r unedau yn ymgymryd ag ef a'r atborth o gyrsiau blaenorol a gyflwynwyd ganddynt.

## Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth (SCIE)

**2.57** Mae'r Cynulliad wedi ffurfio partneriaeth gyda'r Adran Iechyd i noddi SCIE. Corff newydd yw hwn a sefydlwyd ym mis Hydref 2001 i gefnogi a hyrwyddo arferion effeithiol mewn gofal cymdeithasol. Bydd yn ymgymryd ag adolygu tystiolaeth a darparu arweiniad awdurdodol i wella perfformiad a safonau gwasanaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y canlyniadau i ddefnyddwyr a'u cynhalwyr. Bu'r Cynulliad yn rhan o benodi'r Cadeirydd, Jane Campbell a'r Prif Weithredwr, Ray Jones a bydd yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd SCIE. Rydym yn sefydlu deialog gyda'r corff newydd sy'n darparu cyfle cyffrous am ragor o welliant i ansawdd gwasanaethau i'r defnyddwyr.

## CYD-DESTUN

**3.1** Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn bodoli er mwyn hybu buddiannau pobl fregus drwy:

- hyrwyddo annibyniaeth
- cefnogi ffyrdd normal o fyw ac integreiddiad i gymunedau lleol
- diogelu a gwarchod eu lles.

**3.2** Anghenion defnyddwyr a'u cynhalwyr ddylai fod yn penderfynu ac yn gyrru'r gwasanaethau. Yn erbyn y cefndir hwn mae'r bennod hon yn archwilio heriau cyfredol a datblygiadau allweddol.

## HERIAU CYFREDOL

### a. Cefnogi'r NHS

**3.3** Mae gwasanaethau cymdeithasol i oedolion wedi bod ar flaen llawer o newidiadau, yn benodol Cynllun yr NHS *Gwella Iechyd yng Nghymru* a osododd lasbrint newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gweithio ar y cyd. Wrth hyrwyddo gwell gweithio ar y cyd a chefnogi'r agenda iechyd, mae gofal cymdeithasol yn dod â chyfraniad pwysig. Mae rhyng-ddibyniaeth agos rhwng anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gofyn am gydweithredu agos.

**3.4** Mae prif amcan y gwaith gyda phobl a allai, ychydig flynyddoedd yn ôl, edrych fel pe baent angen gofal NHS, wedi cael effaith ar gyflwyno gofal cymdeithasol.

**3.5** Mae hyn bellach mewn perygl o greu problemau tymor hwy drwy roi pwysau ar wasanaethau ataliol pwysig a chulhau ffocws gofal cymdeithasol. Mae angen taro cydbwysedd rhwng targedu gwasanaethau at bobl ddibynnol a darparu gwasanaethau sy'n ystyried yn llawn ac yn briodol nid yn unig fywydau pobl fregus ond hefyd eu rhwydwaith teuluol a chymdeithasol.

**3.6** Dylai cyflwyno gwasanaethau wedi eu cydgynllunio ddwyn gwerth ychwanegol ar ffurf well effeithiolrwydd a dod ag ystod o fedrau a phrofiad ynghyd. Ni ddylai cydgynllunio a chydweithio arwain at sefyllfa lle mae galwadau un asiantaeth yn drech nag amcanion un arall, ond yn hytrach at sefyllfa lle mae'r endid cyfan yn darparu gwasanaeth gwell na'r ddwy ran ar wahân.

**3.7** Mae i ofal cymdeithasol swyddogaeth arweiniol i hyrwyddo anghenion pobl fregus mewn llawer o sefyllfaoedd a phartneriaethau. Dangosodd ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl mai lle'r oedd y partneriaid i gyd yn gwneud cyfraniad llawn yr oedd y gwasanaethau fwyaf effeithiol. Lle'r oedd un partner yn trosglwyddo


cyfrifoldeb i un arall, roedd y gwasanaethau yn ddiffygiol. Bydd hyn yr un mor gymwys  er enghraifft, wrth weithredu'r strategaeth iechyd meddwl pan fo angen sicrhau bod cyfraniadau pawb yn cael eu cyflawni'n llawn.

### b. Cynhwysedd yn sector y cartrefi gofal

**3.8** Mae'r angen am bartneriaeth agos gydag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau i oedolion yn amlwg. Mae pryder cynyddol ynghylch lle mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio i oedolion a'r effaith gysylltiedig ar wasanaethau iechyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty.

**3.9** Mae angen mawr i fynd i'r afael â'r materion hynny drwy strategaeth gydlynol yn hytrach na thrwy fesurau darnynol a phrynu yma ac acw. Gall hynny fod wedi bod yn briodol pan oedd lle dros ben o bosibl mewn rhai mannau a phatrwm cymysg o brynu, ond mae'n llai addas wrth i'r pwysau gynyddu. Mewn gofal preswyl a gofal nyrsio lle bu'r cyflenwad yn anghyson yn hanesyddol, mae'n dal i fod mannau lle mae lefel uchel o ddarpariaeth o hyd gyda rhannau eraill dan bwysau llym. Mae Ffigur 3.1 yn dangos lefel amrywiol y ddarpariaeth o'i chymharu â'r boblogaeth dros 75.

Ffigur 3.1: Cyfanswm llefydd mewn cartrefi preswyl a nyrsio y fil o'r boblogaeth dros 75, 31 Mawrth 2000



**3.10** Bu pryder cynyddol ynghylch cyflwr y sector gofal a'i allu i ymateb yn effeithiol i'r pwysau cyfredol. Mae hon yn broblem gymhleth ac un o'i phenderfynyddion allweddol yw recriwtio a chadw staff addas. Mae natur newidiol y gwasanaeth wedi galw am fedrau uwch yn y gweithlu. Mae'r galwadau corfforol ac emosiynol ar staff yn fawr a chydnabyddiaeth gyhoeddus ac ariannol yn aml yn isel. Mae lefelau cyflogaeth uchel a chystadleuaeth o'r sectorau manwerthu wedi ei gwneud hi'n anoddach i recriwtio neu gadw staff. O ran gwasanaethau i oedolion mae hyn wedi effeithio'n arbennig ar wasanaethau gofal cartref a staffio cartrefi gofal (gweler uchod). Mae dadansoddiad pellach o'r sefyllfa yn digwydd ar y cyd â'r awdurdodau lleol a buddiannau darparwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu i:

- fapio darpariaeth gyfredol ar-y-cyd ag iechyd i archwilio pa le sydd yn y cylch i adlewyrchu'r rhyng-ddibyniaeth agos rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- datblygu a gwella strategaethau comisiynu – mae cyd-adolygiadau wedi tynnu sylw at hyn fel gwendid arbennig yng Nghymru
- adolygu'r posibiliadau ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal canolradd i wneud y mwyaf o annibyniaeth ac ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaethau a gwneud y defnydd gorau o le
- ystyried materion a gwaith arall sy'n cael ei ddatblygu ar y gweithlu a chostau gofal.

**3.11** Mae creu 22 o Fyrddau Iechyd Lleol sy'n cydffinio ag ardaloedd awdurdodau lleol yn rhoi cyfle i hyrwyddo gwasanaethau mwy integredig gan gymryd anghenion lleol i ystyriaeth.


## GWASANAETHAU I OEDOLION: DATBLYGIAD CYFFREDINOL

**3.12** Mae'r tablau atodedig yn dangos rhai o'r tueddiadau a'r patrymau cyffredinol yng ngwasanaethau gofal cymunedol i oedolion. Er gwaethaf y bwriad polisi i fuddsoddi mewn gwasanaethau i gadw pobl gartref, mae tueddiadau diweddar os rhywbeth wedi mynd i'r cyfeiriad arall gyda rhagor o fuddsoddi mewn gofal preswyl a chartrefi nyrsio o'i gymharu â gofal cartref. Mae'r patrwm hwn yn unol ag astudiaeth gan sefydliad Nuffield yn 1998 a bwysleisiodd yr angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol. Dylai'r gwaith a ddisgrifir uchod ar y sector gofal ymdrin â sut gellir cyflawni cydbwysedd priodol mewn gofal.

## Tabl 3.1: Gwasanaethau Cymdeithasol i Bobl Hŷn - gwariant ar ofal preswyl, dydd ac yn y cartref


| | Gofal Preswyl | Gofal Dydd ac yn y Cartref |
|---|---|---|
| 1996/1997 | £119,954,000 | £103,370,000 |
| 1997/1998 | £127,944,000 | £104,060,000 |
| 1998/1999 | £142,155,000 | £100,506,000 |
| 1999/2000 | £145,356,000 | £110,210,000 |

Ffigur 3.2: Gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn, gwariant ar gostau preswyl a dydd a chartref





**3.13** Mae'r galw am wasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn wedi bod yn cynyddu'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf. Cofnodwyd ychydig dan 40,000 o asesiadau yn 1994 o'i gymharu â thros 80,000 yn 2001. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn dangos bod llai o bobl yn ôl cyfran wedi bod yn derbyn pecyn gofal cartref. Tra bod niferoedd tebyg wedi bod yn mynd i gartrefi preswyl a nyrsio, bu mwy o bobl yn ôl cyfran heb fod yn derbyn unrhyw wasanaethau.

Ffigur 3.3: Asesiadau ar gyfer pobl hŷn, 31 Mawrth





Ffigur 3.4: Canlyniadau ar gyfer pobl hŷn, 31 Mawrth



## Gwasanaethau Gofal Cartref

**3.14** Mae gwasanaethau gofal cartref yn gydran hollbwysig o'r gefnogaeth i bobl gartref. Bu newidiadau sylweddol ym mhatrwm y gwasanaethau hyn. Mae Ffigur 3.5 yn dangos bod dwysedd y gwasanaeth wedi cynyddu i'r sawl oedd yn ei dderbyn o gyfartaledd o 6.6 awr yr wythnos ym 1996-97, i 9.2 awr yr wythnos yn 2000-2001. Achoswyd y cynnydd hwn drwy fwy o dargedu gan Awdurdodau Lleol, yn arwain at ddarparu'r un nifer o oriau, ond i lai o bobl, ar ôl gostwng o 36,750 i 26,031 dros yr un cyfnod.

Ffigur 3.5: Nifer oriau gofal cartref y person yr wythnos ar gyfartaledd




## Tabl 3.2: Gofal cartref

| Blwyddyn Ariannol | Oriau o ofal cartref a ddarparwyd | Pobl yn derbyn gofal cartref |
|---|---|---|
| 1996-1997 | 12,694,391 | 36,750 |
| 1997-1998 | 11,519,027 | 33,078 |
| 1998-1999 | 11,337,660 | 29,667 |
| 1999-2000 | 11,634,790 | 29,112 |
| 2000-2001 | 12,449,413 | 26,031 |

**3.15** Yn erbyn y cefndir hwn mae casgliad trawiadol o fesurau newydd ar y ffordd ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

## Proses yr Asesiad Sengl/ Mynediad Teg at Ofal

**3.16** Fel y'i gosodwyd allan ym Mhapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i ddatblygu ymhellach yng Nghynllun yr NHS i Gymru, mae AGCC yn arwain gwaith i gynhyrchu system sengl unedig i asesu a rheoli gofal ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal iechyd a chymdeithasol cymhleth, yn enwedig pobl hŷn. Mae yna becyn cynhwysfawr ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel ei gilydd ac mae'n cynnwys arweiniad ar brosesau asesu a meini prawf cymhwyster yn ogystal â'r meysydd neu barthau ar gyfer eu hasesu.

**3.17** Cynhyrchwyd yr arweiniad drafft gyda help grŵp cyfeirio aml-asiantaethol ac fe'i porthwyd gan ddarganfyddiadau arolwg Age Alliance o farn pobl hŷn a'u cynhalwyr yng Nghymru. Mae ymgynghoriad llawn ar yr arweiniad ar waith gyda'r bwriad o'i weithredu o Ebrill 2002.

**3.18** Bydd yr Arweiniad yn gymwys yn y lle gyntaf i bobl hŷn a bydd yn rhan o'n dull o ymdrin â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Bydd yr arweiniad hwn hefyd yn berthnasol i grwpiau eraill o oedolion a bydd mentrau polisi pellach ar gyfer y grwpiau hyn yn cadarnhau'r dull.

## Cynhalwyr

**3.19** Mae cynnydd arwyddocaol wedi ei wneud ar y Strategaeth i Gynhalwyr yng Nghymru. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cyflawniadau allweddol hyd yn hyn ac i raglen ar gyfer y dyfodol ym mis Mehefin 2001 – *Yr Adroddiad Cyntaf – Gofalu am Gynhalwyr*:

- o 1 Gorffennaf 2001 – cyflwyno *Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000* yng Nghymru. Mae'r newidiadau yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cynhaliwr ar ôl asesiad
- mae canllawiau polisi ac ymarfer wedi eu cyhoeddi a'u dosbarthu i awdurdodau lleol, sefydliadau cynhalwyr ac eraill sydd â diddordeb. Mae taflenni gwybodaeth gyhoeddus newydd – Asesiadau Cynhalwyr – hefyd ar gael yn eang
- cynllun talebau - Mae'r Cynulliad yn bwriadu sefydlu gweithgor (ddiwedd 2001) gydag awdurdodau lleol a chyfranogwyr allweddol eraill gyda golwg ar gyflwyno rheoliadau i ddarparu ar gyfer cynlluniau talebau i'w rhedeg gan awdurdodau lleol ar gyfer egwyliau byr erbyn gwanwyn 2003
- mae'r Cynulliad wedi dyrannu £3.7m ar gyfer Adroddiad Grant Arbennig Cynhalwyr 2001/2. Yn ychwanegol darparwyd £1.1m

pellach i awdurdodau lleol i gefnogi'r cynllun

- am y tro cyntaf mae'r cynlluniau yn cynnwys darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i Gynhalwyr. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynnwys cynlluniau arloesol sy'n dangos bod rhyw 20% o gyfanswm y grant wedi ei ddyrannu i ddatblygu'r gwasanaethau hyn
- gellir cael gwybodaeth a chyhoeddiadau o wefan Cynhalwyr y Cynulliad: www.wales.gov.uk/subisocialcarers/

## Gwarchod Oedolion Bregus

**3.20** Mae hi'n flwyddyn bellach oddi ar lansio *Mewn Dwylo Diogel*, arweiniad ar warchod oedolion bregus. Rhaid i godau ymarfer aml-asiantaethol lleol fod yn eu lle ledled Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.21** Bu AGCC'n cynnal arolwg o awdurdodau yn gynnar yn yr hydref i asesu pa gynnydd oedd. Y bwriad oedd darganfod a oedd awdurdodau wedi cwrdd â rhwystrau arbennig wrth weithredu'r polisi neu'n gallu dangos ymarfer da y gellid ei rannu ledled Cymru. Yn y Gogledd a'r De fel ei gilydd mae asiantaethau ardaloedd Awdurdodau'r Heddlu wedi dod at ei gilydd i ddatblygu codau ymarfer ar y cyd. Mae enghreifftiau eraill o asiantaethau'n cydweithredu i ystyried agweddau ar weithredu megis monitro. Mae'r grŵp a ddatblygodd yr arweiniad wedi ei ail-gynnull i fonitro'r cynnydd a chynghori ar waith yn y dyfodol.

## Codi tâl am wasanaethau dibreswyl

**3.22** Diwygiwyd y Mesur Safonau Gofal i ganiatáu i'r Adran Iechyd a'r Cynulliad Cenedlaethol gynhyrchu arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch eu harferion codi tâl. Mae'r pwerau newydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gyhoeddi arweiniad dan adran 7 o *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970*.

**3.23** Mae'r ymgynghori ar yr arweiniad statudol newydd arfaethedig wedi ei gwblhau. Gosododd y papur ymgynghori:

- fframwaith bras i helpu cynghorau i lunio polisïau codi tâl teg sy'n gweithredu'n gyson rhwng gwahanol wasanaethau
- ystyriaeth ynghylch codi tâl am bob math o wasanaethau cymdeithasol di- breswyl
- yr opsiynau ar gyfer codi tâl yn ôl lefel y gwasanaeth a/neu fodd
- sut i drin budd-daliadau, incwm arall a chynilion

**3.24** Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn comisiynodd y Cynulliad Brifysgol Abertawe ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymgymryd ag ymchwil bellach ar godi tâl am wasanaethau gofal di-breswyl yng Nghymru, i ddilyn ymlaen o astudiaeth y Comisiwn Archwilio, 'Charging with Care'. Mae

darganfyddiadau'r ddau ymarfer bellach yn cael eu hystyried cyn i'r arweiniad terfynol gael ei gyhoeddi.

## Cefnogi Pobl

**3.25** Mae Cyfarwyddiaeth Dai y Cynulliad wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhwydwaith cyfranogwyr awdurdodau lleol gydol eleni i helpu gyda deall a gweithredu'r polisi hwn. Ym mis Medi cyhoeddodd y Cynulliad *Cefnogi Pobl yng Nghymru: y camau nesaf tuag at weithredu*. Mae'r papur hwn yn gosod allan y penderfyniadau a wnaethpwyd ar ôl y papur ymgynghorol cynt. Mae'r papur yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar gyfer partïon perthnasol ar y camau paratoadol y mae gofyn iddynt ymgymryd â nhw. Elfennau allweddol y papur yw:

- sefydlu ffrydiau cyllido arwahanol ar gyfer cefnogaeth i'r henoed, gwasanaethau sydd hefyd yn darparu gofal personol, ac ar gyfer mathau eraill o dai sy'n cael eu cefnogi. Bydd y ddwy elfen gyntaf yn cael eu trosglwyddo i, a'u gweinyddu gan, awdurdodau lleol, a'r llall gan y Cynulliad Cenedlaethol fel Grant Refeniw Cefnogi Pobl
- trosglwyddo Grant Refeniw Cefnogi Pobl i awdurdodau yn ddibynnol ar drafod rhai amodau'n foddhaol. Dyddiad targed y trosglwyddo yw 1 Ebrill 2006
- sefydlu cynllun achredu i gefnogi darparwyr i ganiatáu talu'r Grant Refeniw Cefnogi Pobl yn uniongyrchol iddynt.

## Pobl Hŷn: Strategaeth Henoed Cymru

**3.26** Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n arwain datblygiad y strategaeth henoed. Ei nod dechreuol yw hyrwyddo iechyd a lles tymor hir pobl hŷn y gall awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a'u partneriaid yn y sector gwirfoddol ac annibynnol weithio gyda'i gilydd o fewn iddi. Mae'r strategaeth yn edrych ar y themâu canlynol:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyrwyddo iechyd a byw'n iach
- Tai a hamdden
- Cynhwysiad cymdeithasol
- Cludiant
- Dysgu gydol oes
- Materion sydd heb eu datganoli

**3.27** Roedd y gwaith i fod i gael ei gwblhau yn hanner cyntaf 2002. [bydd ei waith yn cynnwys ystyried gofal personol am ddim i bobl hŷn].

## Astudiaeth Nuffield – Gwasanaethau Anabledd

**3.28** Comisiynwyd yr astudiaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) mewn partneriaeth â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

**3.29** Nod yr astudiaeth oedd rhoi gwybodaeth i lywodraeth ganolog a lleol am ofynion oedolion sydd ag anabledd corfforol ac asesu lefelau anghenion nas diwallwyd ledled Cymru.

**3.30** Yr amcanion penodol oedd dynodi:


- lefelau cyfredol gwariant gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar y grŵp targed
- diffygion o ran cwrdd yn iawn ag anghenion y sawl sydd ar hyn o bryd yn derbyn rhai gwasanaethau, yn ôl y math o wasanaeth ac yn nhermau cost
- faint o bobl sydd ar hyn o bryd wedi eu hallgáu o dderbyn unrhyw wasanaethau drwy feini prawf cymhwyster cynghorau, neu am resymau eraill, a allai yn rhesymol ddisgwyl derbyn gwasanaethau, a chost gwneud y ddarpariaeth hon.

**3.31** Seiliwyd yr astudiaeth ar broses debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn gan Sefydliad Nuffield yn 1998. Gwnaethpwyd y gwaith maes gan grŵp o ddeg awdurdod lleol. Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn awr yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach polisi.


## Anabledd

**3.32** Mae nifer y bobl sydd ar gofrestri sydd ag anabledd synhwyraidd neu gorfforol yn cynyddu. O ran anableddau synhwyraidd (dyblu i bron 30,000 rhwng 1980 a 2000) a bathodynnau cerbydau a ddosbarthwyd (wedi mwy na dyblu rhwng 1987 a 2000). Mae'r ddau ffigur hyn yn dangos yr ystod cynyddol o gysylltiadau rhwng gwasanaethau cymdeithasol a niferoedd mawr o bobl sydd ag anableddau.


**Ffigur 3.6: Cofrestr pobl sydd ag anableddau synhwyraidd, 31 Mawrth**



Ffigur 3.7: Cofrestr pobl sydd ag anableddau synhwyraidd, 31 Mawrth




Ffigur 3.8: Bathodynnau cerbydau sydd wedi eu dosbarthu, 31 Mawrth




## Iechyd Meddwl

**3.33** Lansiwyd Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion ym mis Medi 2001. Bu'r strategaeth hon yn destun un o'r ymarferion ymgynghori mwyaf i'r Cynulliad erioed ymgymryd ag ef ac mae'n pleidio egwyddorion cydraddoldeb, grymuso, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'r egwyddorion yma yn atgyfnerthu'r angen i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gael mynediad at gefnogaeth a gofal cymdeithasol a chymunedol yn ogystal â thriniaeth feddygol ac i'w galluogi i wella cymaint a byw bywydau mor llawn ag sy'n bosibl.

**3.34** Mae drafft cyntaf Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) Cymru ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei ddatblygu, gyda grwpiau ffocws sy'n cynrychioli'r holl gyfranogwyr ledled Cymru yn helpu'r broses hon. Bydd yr NSF yn sefydlu safonau a dangosyddion perfformiad i fod yn sail i'r strategaeth. Cyhoeddir yr NSF ddiwedd y flwyddyn.

**3.35** Mae Ffigur 3.9 yn dangos patrwm y ddarpariaeth breswyl ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl dros yr 20 mlynedd diwethaf. Tra bod y ddarpariaeth drwyddi draw wedi parhau'n weddol gyson, mae bron i 80% bellach yn cael ei ddarparu yn y sector annibynnol. Yn 1980, 40% oedd yn cael ei ddarparu yn y sector annibynnol. Nid yw'r ffigurau yma'n cynnwys llety sy'n cael ei gefnogi ond nad yw wedi ei gofrestru.

Ffigur 3.9: Llefydd ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, 31 Mawrth



## Anableddau Dysgu


**3.36** Y llynedd rhoddodd y Cynulliad £25m ychwanegol dros dair blynedd i brysuro'r rhaglen ailgartrefu. Bydd rhaglen ailgartrefu Hensol (Bro Morgannwg) yn cael ei ghwblhau yn 2004. Mae cynigion ar gyfer cynllun ailgartrefu cynhwysfawr yn cael eu llunio ar hyn o bryd ar gyfer ailgartrefu pobl o Fryn y Neuadd (yn y gogledd). Disgwylir ei gwblhau yn 2006.

**3.37** Yn ddiweddar cyhoeddwyd *Cyflawni'r Addewidion*, fframwaith ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu, gan Grŵp Ymgynghorol Anableddau Dysgu a gynullwyd ym mis Rhagfyr 1999. Mae'r adroddiad hwn yn asesu cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth ac mae'n datgan yr heriau ar gyfer y dyfodol. Mae cynnydd mawr wedi ei wneud eisoes o ran diwygio natur gwasanaethau preswyl, gwasanaethau dydd, gwasanaethau gartref a chefnogi teuluoedd ond anwastad yw'r sefyllfa ledled Cymru. Mae'r Grŵp wedi datgan eu cynigion a'u blaenoriaethau i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau yn 2010. Mae'r Grŵp Ymgynghorol yn credu y bydd eu cynigion yn datblygu gwasanaethau a chefnogaeth mwy hygyrch, ymatebol a pherson-ganolog nag erioed o'r blaen ac yn darparu ymrwymiad mwy i bartneriaeth, hyfforddiant i'r gweithlu a'r Gwerth Gorau.


**3.38** Bydd cyfnod ymgynghori hwy nag arfer i'r adroddiad hwn – 16 wythnos – i ganiatáu amser i ymgynghori'n llawn â defnyddwyr gwasanaethau a'u cynhalwyr. Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben bydd angen i'r Cynulliad benderfynu pa gamau i'w cymryd ar gyfer datblygu polisïau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu yn y dyfodol a dynodi blaenoriaethau allweddol ac amserlen ar gyfer gweithredu.

**3.39** Dangosir y newid dramatig ym mhatrymau gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu yn Ffigur 3.10. Mae llawer yn rhagor o bobl, yn ôl cyfran, yn cael eu cefnogi mewn trefniadau byw cymunedol a llety preifat neu wirfoddol ac ychydig bach sydd bellach yn dal mewn llety gwasanaeth iechyd.

Ffigur 3.10: Cofrestr pobl sydd ag anableddau dysgu, 31 Mawrth




Ffigur 3.11: Cofrestr pobl sydd ag anableddau dysgu, 31 Mawrth



## Camddefnyddio Sylweddau

**3.40** Cyhoeddwyd strategaeth y Cynulliad *Delio â chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Dull Partneriaeth* ym mis Mai 2000. Yn dilyn lansio'r strategaeth wyth mlynedd hon, mae Timau Gweithredu Alcohol a Chyffuriau (DAATs) wedi adolygu problemau ac anghenion arbennig eu hardaloedd ac wedi datblygu strategaeth i'w diwallu gyda'r un nodau â'r strategaeth genedlaethol hon. O fewn y Cynulliad mae newidiadau strwythurol wedi eu gweithredu i helpu i'w chyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys dod ag Uned Alcohol a Chyffuriau Cymru i mewn i'r Cynulliad, lle mae bellach yn ffurfio rhan o Gyfarwyddiaeth y Cymunedau, a sefydlu Panel Ymgynghorol newydd ar Gamddefnyddio Sylweddau.

**3.41** Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol, yr awdurdod lleol ehangach a'r sectorau gwirfoddol a phreifat yn ogystal ag asiantaethau iechyd a chyfiawnder troseddol i gyd swyddogaethau pwysig yn y gwaith o weithredu'r strategaeth genedlaethol.

**3.42** Mae mentrau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â chyffuriau yn cynnwys nifer yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol megis y gorchymyn trin a phrofi cyffuriau a chynlluniau cyfeirio arestiadau. Mae'r rhain yn peri peth pryder ym maes camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ynghylch gallu i gyflwyno'r gwasanaethau trin angenrheidiol. Mae mentrau canolog eraill yn cynnwys buddsoddi mawr mewn ymdrin â throseddu cyffuriau-gysylltiedig drwy strategaeth Cymunedau yn erbyn Cyffuriau ac mewn helpu hawlwyr y mae eu problemau cyffuriau o bosibl yn rhwystr iddynt ddod o hyd i waith.

**3.43** Mae cyllid ychwanegol a ddaeth drwy'r Gronfa Trin Alcohol a Chyffuriau wedi hwyluso datblygu gwasanaethau i bobl ifainc a gydgomisiynir yn aml. Roedd cynhadledd a noddwyd gan y Cynulliad a gynhaliwyd ym mis Mawrth ar Ddiagnosis Deuol yn cynnwys cyfraniadau ynghylch ymateb y gwasanaethau cymdeithasol i'r mater.

**3.44** Mae cynllun yr NHS yn cynnig dileu'r Awdurdodau Iechyd y mae DAATs wedi eu seilio ar eu ffiniau, o 2003. Bydd y Cynulliad yn ymgynghori'n llawn ar oblygiadau'r trefniadau newydd hyn i DAATs. Bydd y Cynulliad hefyd yn dwyn gwaith yn ei flaen ar raglen ymchwil a gwybodaeth camddefnyddio cyffuriau i gefnogi gweithredu'r strategaeth. Gosod rhai targedau perfformio allweddol i fesur cynnydd yn erbyn y strategaeth yw gwaith cyntaf y rhaglen hon, sydd bellach ar y gweill.

**3.45** Yn y chwe mis yn gorffen ar 30 Medi 2000 nifer y defnyddwyr yr adroddwyd eu bod yn dechrau episodau asiantaeth yng Nghymru oedd 1,776, gostyngiad o 7% ar y

chwe mis cyn hynny. Y prif gyffur i gael ei ddefnyddio oedd heroin (45% o ddefnyddwyr); roedd dros hanner (51%) y defnyddwyr yn 20-29 oed ac roedd 17% yn 19 neu'n iau. Rhaid trin y data hyn gyda gofal, oherwydd gall tueddiadau mewn data fod yn ganlyniadau newidiadau a gwelliannau mewn arferion adrodd. Er hynny, maent yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifainc.

## GWEITHIO AR Y CYD GYDAG IECHYD

### Pwysau brys ac oedi wrth drosglwyddo gofal

**3.46** Mae dull systemau cyfan at reoli pwysau brys ac oedi i drosglwyddo gofal yn cael ei bwysleisio unwaith eto yn yr Arweiniad i Gynllunio Pwysau Brys newydd. Mae'r Arweiniad, yn adeiladu ar waith da y llynedd. Mae'n tynnu hefyd ar ganlyniadau Adroddiad Pwysau Brys 2000-1, y gwaith ar oedi i drosglwyddo gofal ac Arolwg yr Archwiliad Dosbarth.

**3.47** Mae'r adrannau gofal cymdeithasol wedi eu gwella i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch cyfraniad llywodraeth leol ehangach a bellach mae'n cynnwys darnau ar gynhalwyr a'r sector annibynnol. Mae'r arweiniad yn mynnu bod llywodraeth leol yn gweithio gyda'r NHS i baratoi cynlluniau i gwrdd â phwysau brys.

**3.48** Mae'r Arweiniad bellach yn neilltuo adran i Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Tra bod system casglu data oedi i drosglwyddo gofal yn dal i ddatblygu, mae camau breision wedi eu cymryd drwy waith cydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd ac ymdrechion Gweithgor Cymru Gyfan. Mae hynny wedi helpu i gynyddu ffocws ar niferoedd y bobl sy'n disgwyl eu trosglwyddo ac i roi data mewn cyd-destun lleol. Gofynnwyd am i gynlluniau gweithredu trosglwyddo gofal ar y cyd rhwng yr NHS ac awdurdodau lleol roi manylion am y problemau a welir, y camau a gymerwyd neu a gynlluniwyd ac enghreifftiau o ymarfer da.

**3.49** Ym mis Hydref cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £8m o fuddsoddiad ariannol i helpu llywodraeth leol a'r NHS i ymdrin â phwysau uniongyrchol ac i alluogi'r sector gofal yn ei gyfanrwydd i fynd i'r afael â phroblemau parhaol oedi i drosglwyddo gofal ac i helpu i sefydlogi sectorau gofal cartref a chartrefi gofal. Rhaid i'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ysgogi newid a phartneriaethau ac i fod yn sail i ddull system gyfan at wella'r canlyniadau ar gyfer cleifion, defnyddwyr a chynhalwyr.

### Arweiniad Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gymru

**3.50** Am y tro cyntaf eleni mae Cyd-arweiniad Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gymru yn cymryd lle siarter yr NHS. Mae'r symudiad hwn

yn adlewyrchu'r berthynas agos sydd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ymgais i roi gwybodaeth berthnasol mewn un lle i ddefnyddwyr gwasanaethau, rai ohonynt yn derbyn gofal gan y ddwy asiantaeth. Defnyddiwyd grwpiau ffocws i benderfynu pa fath o wybodaeth y dylai arweiniad o'r fath ei darparu ac fe gynhaliwyd proses ymgynghori fawr yn yr haf. Bu'n dasg anodd i geisio tynnu'r holl elfennau y mae angen eu cynnwys mewn dogfen ar y cyd o'r fath ynghyd a rhoi digon o sylw iddynt. Disgwyliwn i'r Arweiniad gael ei gyflwyno i'r Gweinidogion i gael cytundeb i'w gyhoeddi cyn hir.

### Cyd-Hyblygeddau

**3.51** Cynyddodd *Deddf Iechyd 1999* y pwerau i awdurdodau lleol a'r NHS i weithio'n agosach gyda'i gilydd i ddatblygu, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu "gweithgor arbenigol" i weithio drwy rai o'r materion sy'n codi yn y prosiectau sydd ar hyn o bryd yn cael eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys materion adnoddau dynol megis trosglwyddo staff, sut y dylid ymdrin â TAW am fod trefniadau gwahanol yn gymwys i bob asiantaeth ar hyn o bryd, a chodi tâl er mwyn cynhyrchu arweiniad a lledaenu ymarfer da.

**3.52** Mae'r fenter hon yn darparu rhagor o opsiynau ar gyfer sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu ac yn ehangu llawer o'r gwaith ar y cyd presennol. I archwilio'r defnydd potensial o'r peirianweithiau yma mae'r Cynulliad wedi rhoi cyllid ar gael eleni i helpu gyda datblygu cynlluniau. Dylid gweld y peirianweithiau hyblygedd yma fel rhan integrol o gynllunio'u swyddogaeth comisiynu a chyflwyno gwasanaethau yn hytrach nag fel menter ar wahân.

### Gofal tymor hir

**3.53** Mae cynllun yr NHS i Gymru yn rhoi ymrwymiad i gyllido gofal gan nyrs gofrestredig gan yr NHS, heb ystyried y sefyllfa lle bydd yn cael ei gyflwyno. Mae Adran 49 *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001* yn symud cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol am drefnu gofal gan nyrs gofrestredig fel rhan o ofal cymunedol ac yn palmantu'r ffordd ar gyfer cyflwyno gofal nyrsio a gyllidir gan yr NHS. Ni fydd yr adran hon yn dod i rym ar gyfer preswylwyr sy'n cael eu cefnogi gan gynghorau hyd 1 Ebrill 2003. Dim ond preswylwyr sy'n cyllido eu gofal eu hunain fydd yn elwa o hyn yn y lle cyntaf.  Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol a chyrff iechyd ynghyd ag arweiniad i ddefnyddwyr gwasanaethau a gwybodaeth i staff.

**3.54** Mae'r maes hwn o waith wedi ei gysylltu'n agos â datblygu system asesu a rheoli gofal sengl (gweler uchod).

### Chwe wythnos o ofal cartref am ddim ar gyfer adferiad ar ôl dod allan o'r ysbyty

**3.55** Bydd y rhai a aseswyd mewn angen yn derbyn chwe wythnos o ofal nyrsio am ddim ar ôl dod o'r ysbyty. Bydd hynny'n sicrhau bod pobl yn cael yr help y mae ei angen arnynt ar adeg hollbwysig.

### Gofal Canolradd

**3.56** Mae ffocws newydd wedi ei osod ar wasanaethau "gofal canolradd". Gwasanaethau yw'r rhain i hyrwyddo annibyniaeth defnyddwyr drwy raglenni gweithredol o adfer ac ail-alluogi ar sail tymor byr. Mae gwasanaethau o'r fath yn bwysig i helpu pobl i ennill mwy o annibyniaeth ac felly gyflawniad yn eu bywydau. Maent hefyd yn helpu i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau drwy wneud y mwyaf o alluoedd pobl eu hunain.

## GWASANAETHAU I BLANT A THEULUOEDD

4.1 Mae gwella mesurau diogelwch a hyrwyddo lles plant yn ganolog i ddatblygiad rhaglen ddatblygu gwasanaethau plant. Mae hyn yn adlewyrchu'r nod cyffredinol y mae cynghorau yn anelu ato wrth gyflwyno gwasanaethau cymdeithasol i blant a'u teuluoedd. Mae Rhaglen Plant yn Gyntaf y Cynulliad a'r arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol, gan gynnwys Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, yn pwysleisio bod gweithio ar y cyd effeithiol rhwng awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat yn hanfodol ar gyfer cyrraedd y nod yma. Mae ymrwymiad y Cynulliad i ddull strategol sy'n ceisio cael rhagor o gydlyniaeth mewn cynllunio a chyflwyno gwasanaethau rhyng-asiantaethol yn amlwg yn yr arweiniad i gynllunio gwasanaethau cymdeithasol a'r gwaith ar ddatblygu fframweithiau i blant a phobl ifanc.

4.2 Mae asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant yn parhau i ymateb i agenda polisi sy'n anelu at wella perfformiad y gwasanaethau cyhoeddus a'r canlyniadau i blant unigol a'u teuluoedd. Mae moderneiddio llywodraeth leol yn newid y ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol i blant a'u teuluoedd yn cael eu trefnu mewn rhai rhannau o Gymru ac mae newid pellach a fydd yn effeithio ar wasanaethau plant a'u teuluoedd yn debygol wrth i gynllun yr NHS gael ei weithredu.

4.3 Mae angen i drefniadau ar gyfer gweithio rhyng-asiantaethol ystyried newidiadau trefniadaethol a sicrhau bod systemau atebolrwydd yn glir ac wedi eu dogfennu mewn ffyrdd sy'n hygyrch i'r staff a'r cyhoedd. Mae adolygiadau o achosion plant, gan gynnwys adolygiadau Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal o achosion amddiffyn plant, ac eraill ynghylch plant y gofelir amdanynt gan awdurdodau lleol, yn gyson yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng asiantaethau mewn gwaith rhyng-asiantaethol gyda phlant unigol.

## Cynllunio Gwasanaethau Plant

4.4 Mae'r Cynulliad yn ymgynghori ar y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc sy'n ceisio hyrwyddo cynllunio strategol cydlynedig rhwng yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'n ceisio gostwng y baich cynllunio sydd ar awdurdodau lleol ac yn cynnig y dylid cyfuno Cynlluniau Gweithredu Rheolaeth

Plant yn Gyntaf a Chynlluniau Gwasanaethau Plant.

## YMATEB I AR *GOLL MEWN GOFAL*

**4.5** Mae gweithredu argymhellion y Tribiwnlys Cam-drin Plant yng Ngogledd Cymru* yn parhau. Roedd ymateb y Cynulliad i adroddiad y Tribiwnlys yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ac yn adrodd ar waith sydd ar droed a chamau a gymerwyd eisoes. Gwnaeth y Tribiwnlys argymhellion i'r Cynulliad ac adrannau'r llywodraeth, ac awdurdodau lleol a'r heddlu, gan gynnwys rhai oedd yn gofyn iddynt weithio gyda'i gilydd.

**4.6** Mae rhaglen ddatblygu AGCC eleni wedi cynnwys gwaith i weithredu'r argymhellion ac i annog eraill i wneud hynny. Mae gweithredu llawer ohonynt yn llwyddiannus yn gofyn am newid parhaol mewn ymarfer a gweithdrefnau, ac ymrwymiad gan reolwyr ac arolygwyr i gefnogi a monitro parhaus. Trafodir nifer fach o'r argymhellion a'r camau gweithredu cysylltiedig isod fel enghreifftiau.

- wrth sefydlu polisïau a gweithdrefnau i alluogi staff i wneud cwynion neu godi materion o bryder sy'n effeithio ar driniaeth a lles plant, rhaid i awdurdodau sicrhau bod camau o'r fath wedi eu cydnabod yn gyfrifoldeb proffesiynol. Mae angen iddynt sefydlu hygrededd y polisïau a'r gweithdrefnau a hyrwyddo ymwybyddiaeth, ac efallai newid diwylliannol, yn eu sefydliadau i sicrhau bod staff yn hyderus ac yn ddiogel rhag gorfod talu am gyflawni'r agwedd hon ar eu swyddogaeth. Bydd y fframwaith moesegol newydd a gyflwynir gan Ran 11 *Deddf Llywodraeth Leol 2000* yn gymorth i awdurdodau a'u gweithwyr cyflog. Mae codau ymddygiad newydd yn mynnu bod gan gynghorau beirianweithiau adrodd cyfrinachol yn eu lle ac yn rhoi dyletswydd ar aelodau a gweithwyr cyflog cynghorau i roi gwybod am unrhyw weithredu y maent yn credu ei fod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol, neu'n anghyson â'r codau mewn ffordd arall
- mae gwaith gydag adrannau'r llywodraeth wedi cynhyrchu arweiniad drafft ar gyfer awdurdodau lleol a'r heddlu, mewn ymateb i weithredu argymhelliad y Tribiwnlys y dylid cael adolygiad rhyng-asiantaethol o'r weithdrefn a ddilynwyd a'r personél a gyflogwyd mewn archwiliadau mawr o gam-drin eang honedig o blant mewn gofal
- mae ymatebion awdurdodau i ymholiadau AGCC yn dangos bod trefniadau rheoli a chymwysterau a phrofiad rheolwyr yn y rhan fwyaf o achosion yn gyson â gweithredu argymhellion y Tribiwnlys, a gallai'r newidiadau a ddisgwylir mewn eraill roi cyfleoedd iddynt ymdrin â hyn. Mae newidiadau yn gysylltiedig â moderneiddio llywodraeth leol wedi arwain at strwythurau mewn rhai awdurdodau nad oeddent wedi eu rhagweld gan y Tribiwnlys ac fe fydd hi'n bwysig monitro pa

* Report of the Tribunal of Inquiry into the Abuse of Children in Care in North Wales

effaith a gaiff y rhain ar wasanaethau plant.

## PLANT YN GYNTAF

**4.7** Nod Rhaglen Plant yn Gyntaf y Cynulliad Cenedlaethol (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 20/99) yw trawsnewid rheolaeth a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn angen, gan gynnwys y rhai yr edrychir ar eu holau, a gwella bywydau plant drwy gyflwyno gwasanaethau o ansawdd sy'n ymateb i'w hanghenion hwy a'u teuluoedd. Mae awdurdodau wedi cymeryd rhan yn y rhaglen ac fe geir enghreifftiau cadarnhaol o weithio rhyng-asiantaethol gan gynnwys mentrau i hyrwyddo cynhwysiad ysgolion, cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal, cyfranogiad plant wrth gynllunio gofal a phrosesau adolygu, a gwella'r dewis o leoliadau a'u sefydlogrwydd.

**4.8** Mae AGCC yn cyfrannu i'r adolygiad o Gynlluniau Gweithredu Rheolaeth Plant yn Gyntaf ac ymweliadau adolygu ag awdurdodau lleol. Mae secondio ymarferwr profiadol a rheolwr o'r sector gwirfoddol i uned ddatblygu AGCC wedi cryfhau gallu'r Arolygiaeth i hyrwyddo cyflawni amcanion Plant yn Gyntaf a'u hintegreiddio i reolaeth ac ymarfer gwasanaethau plant. Mae gwaith gyda rheolwyr awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar amcanion dethol ac yn anelu at helpu i ddynodi beth sy'n gweithio a rhannu ymarfer da.

**4.9** Un o'r meysydd a ddewiswyd ar gyfer canolbwyntio sylw yw gwasanaethau ar gyfer plant anabl, yn cynnwys sefydlu cronfeydd gwybodaeth ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd a fydd yn dynodi'r plant sydd ag anghenion penodol ac ymateb y gwasanaeth. Tra bod rhai awdurdodau wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth mae eraill yn profi mwy o anhawster wrth sefydlu protocolau rhannu data a gweithio o fewn gofynion y *Ddeddf Gwarchod Data*. Tra bod awdurdodau yn gyfrifol am geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain mae AGCC yn cynllunio i hwyluso cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch cynnydd ac enghreifftiau o ymarfer gorau yn y maes hwn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y materion a ddynodwyd wrth ddadansoddi ymatebion awdurdodau i gais AGCC am wybodaeth am eu gwasanaethau i blant anabl.

**4.10** Mae'r rhaglen wedi tynnu sylw at angen mwy cyffredinol am systemau gwybodaeth rheoli gwell a rhagor o ddealltwriaeth a defnydd o'r wybodaeth i gael gwell canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Mae rhai o'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus o ran diwallu gofynion rhaglen Plant yn Gyntaf yn adrodd eu bod wedi adfer gwybodaeth â llaw o gofnodion achosion unigol ac wedi sicrhau bod bylchau mewn gwybodaeth bersonol yn cael eu llenwi. Mae'r Cynulliad yn helpu awdurdodau i uwchraddio a

gwella eu systemau rheoli gwybodaeth. Mae'r fenter hon yn digwydd ochr yn ochr â datblygu System Blant Integredig (a drafodir mewn man arall yn y bennod hon) a'r fframwaith perfformio ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn corffori ac yn adeiladu ar elfennau allweddol Plant yn Gyntaf:

- amcanion i Gymru gyfan a dangosyddion perfformio cysylltiedig â chanlyniadau clir i blant
- targedau, wedi eu gosod ledled Cymru neu'n lleol, ar gyfer pob un o'r dangosyddion. Mae rhai o'r targedau wedi eu gosod o'r cychwyn ac yn ddibynnol ar adolygiad. Mae eraill yn cael eu sefydlu wrth i'r rhaglen ddatblygu
- partneriaeth rhwng llywodraeth ganolog a lleol a gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd
- swyddogaeth bwysig i aelodau etholedig i sicrhau cyflwyno'r rhaglen.

**4.11** Mae gwaith yn digwydd yn y Cynulliad a chydag awdurdodau lleol i sicrhau bod amcanion a dangosyddion Rhaglen Plant yn Gyntaf, dangosyddion perfformiad y Gwerth Gorau, cytundebau polisi ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol personol yng Nghymru, a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ategu ei gilydd ac yn briodol gyson â'i gilydd.

## ASESU, CYNLLUNIO GOFAL, YMYRRYD AC ADOLYGU

**4.12** Mae gwella ansawdd canlyniadau i blant a'u teuluoedd yn ganolog i agenda polisi y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau plant. Mae'n amlwg o adolygiadau achosion a gyflwynwyd i AGCC ac adroddiadau ar arolygiadau a chyd-adolygiadau bod angen i asesu, cynllunio gofal, ymyrraeth ac adolygu achosion plant fod yn fwy effeithiol ac wedi eu cyfeirio'n benodol at gyflawni canlyniadau da i blant mewn angen a'u teuluoedd.

**4.13** Cafwyd digwyddiadau ar gyfer rheolwyr a hyfforddwyr a darparwyd deunyddiau hyfforddi at ddefnydd lleol i gefnogi cyflwyno'r Fframwaith Asesu Plant mewn Angen, ac mae'r awdurdodau a oedd yn rhan o beilotio'r Fframwaith wedi gwneud cyfraniad pwysig drwy rannu eu profiad ag eraill.

**4.14** Mae AGCC, ynghyd â rhannau eraill o'r Cynulliad a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, yn cyfranogi mewn gwaith a arweinir gan yr Adran Iechyd i ddatblygu System Blant Integredig sy'n adeiladu ar system Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) a'r Fframwaith Asesu. Wrth ddatblygu'r system ystyrir y gwersi a ddysgwyd wrth weithredu system LAC a'r Fframwaith Asesu. Tra bod profiad ymarferwyr a rheolwyr o ddefnyddio'r Fframwaith Asesu yn gyfyng hyd yn hyn mae ganddynt brofiad hwy o

system LAC ac maent wedi cyfrannu at yr adolygiad ohoni. Mae ymgynghori ar y system arfaethedig yn digwydd gyda'r bwriad y dylai gael ei pheilotio yn ystod 2002-2003.

**4.15** Cyn gallu gweithredu'r system blant integredig yn effeithiol bydd angen i systemau electronig awdurdodau fod â'r gallu i'w chynnal ac mae manyleb yn cael ei datblygu i awdurdodau i'w thrafod gyda'u darparwyr meddalwedd. Bydd ei gweithredu yn darparu system integredig gydlynus a chynhwysfawr a fydd yn cefnogi asesu, cynllunio gofal, prosesau ymyrryd ac adolygu ar gyfer plant unigol, ac ar yr un pryd yn sylfaen ar gyfer agregeiddio ac arfarnu data i borthi rheoli perfformiad, cynllunio strategol, comisiynu, cyflwyno ac arfarnu gwasanaethau plant.

## CYNYDDU DEWIS O LEOLIADAU A GWELLA SEFYDLOGRWYDD LLEOLIADAU AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL

**4.16** Mae grŵp gorchwyl dan gadeiryddiaeth Miss Adrianne Jones CBE, wedi bod yn datblygu fframwaith strategol drafft i helpu awdurdodau i wella sefydlogrwydd a dewis lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rhagwelwn y bydd ymgynghori ar y drafft yn digwydd y flwyddyn nesaf.

**4.17** Bwriad y fframwaith yw cefnogi gweithredu'r argymhellion yn adroddiadau Tîm Archwilio Gogledd Cymru yn 1996, a'r Ymholiad Cam-drin Plant yng Ngogledd Cymru yn 2000.


**4.18** Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ar draws awdurdodau, fel y gwna'r trefniadau a wneir ar gyfer lleoliadau, er mai gyda chynhalwyr maeth mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu gosod.

**4.19** Mae nifer yr awdurdodau yng Nghymru nad ydynt yn darparu darpariaeth breswyl brif ffrwd yn uniongyrchol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu oddi ar aildrefnu llywodraeth leol (er bod rhai ohonynt yn darparu gwasanaethau preswyl egwyl fer ar gyfer plant anabl). Mae trefniadau gyda sefydliadau gwirfoddol wedi arwain at sefydlu gwasanaethau preswyl newydd mewn rhai awdurdodau. Mae anaddasrwydd gofal grŵp i rai plant, rhagor o ymwybyddiaeth o'r potensial i rai cynhalwyr proffesiynol i gam-drin plant, a chost darpariaeth breswyl wedi cyfrannu at ostyngiad yn y defnydd o leoliadau preswyl ac amwysedd ynghylch swyddogaeth gofal preswyl yn strategaethau lleoliadau awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau yn gwneud yn sylweddol fwy o ddefnydd o ofal preswyl nag eraill ac mae hynny ynghyd â dibyniaeth ar sefyllfaoedd preswyl i ddarparu gofal i rai plant sydd ag anghenion cymhleth iawn yn

dangos bod angen ystyried ei swyddogaeth yn y dyfodol. Cefnogodd y Cynulliad gynhadledd ryngwladol ym Mhrifysgol Abertawe, a roddodd gyfle i gyfranogwyr ddysgu am wahanol fodelau o ofal preswyl yn Ewrop a sut mae rhai gwledydd yn hyrwyddo gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion plant.

**4.20** Mae rhai awdurdodau wedi profi anawsterau arbennig i ddod o hyd i leoliadau arbenigol i ddiwallu anghenion cymhleth iawn rhai plant. Mae'r plant wedi bod yn eithriadol o fregus a heriol eu hymddygiad ac wedi cael eu hasesu i fod ag angen lleoliad mewn sefyllfa ddiogel sydd â'r gallu i ddarparu rhaglenni iechyd, addysg a gofal arbenigol.

**Ffigur 4.1: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, yn ôl lleoliadau, 31 Mawrth 2000**



**4.21** Ymdrinnir â'r angen am leoliadau arbenigol i rai plant yn adroddiad Tîm Archwilio Gogledd Cymru. Daw i'r casgliad bod awdurdodau unedol yn annhebyg o allu darparu ystod nac ansawdd digonol o ran lleoliadau oni bai eu bod yn cydweithredu â darparwyr eraill, o'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Mae hefyd yn argymell y dylai awdurdodau wneud trefniadau wrth gefn i'w galluogi i gwrdd â chostau lleoliadau arbenigol drud pan fo angen i ddiwallu anghenion plant. Tynnir sylw at bwysigrwydd yr argymhellion hyn yn adroddiad y Tribiwnlys Cam-drin Plant yng Ngogledd Cymru, darganfyddiadau arolygiadau a chyd-adolygiadau ac ymchwil.

**4.22** Mae'r trefniadau i gwrdd â chymhlethdod anghenion asesedig rhai plant yn galw am gynllunio, cyflwyno ac adolygu gwasanaethau yn ofalus ar sail ryng-asiantaethol, yn cynnwys awdurdodau lleol, yr NHS a darparwyr lleoliadau mewn sectorau eraill. Mae awdurdodau yn aml yn methu dod o hyd i leoliadau o'r fath, sy'n gyfyng o ran nifer ac ar wasgar yn ddaearyddol a rhwng sectorau, o fewn neu'n agos at eu hardal ddaearyddol. Yn ychwanegol maent yn adrodd bod adnabod lleoliadau o'r fath yn mynd â llawer o amser ac yn aml yn golygu trafodaethau hirfaith gyda darparwyr posibl.

**4.23** Defnyddir y term 'lleoliad arbenigol' yn aml fel petai'n gyfystyr â gofal preswyl, ac yn aml i olygu lleoliadau diogel neu leoliadau lle mae plant yn byw mewn grwpiau bychain dan oruchwyliaeth lem, weithiau hyd yn oed yn unig blentyn yn y sefyllfa. Mae llawer o awdurdodau'n ystyried datblygu gwasanaeth lleoliadau arbenigol yn seiliedig ar ofal maeth a'r bwriad yw y bydd y rhaglen ddatblygu yn cynnwys cyfleoedd i archwilio modelau sydd i'w gweld yn llwyddiannus mewn mannau eraill.

**4.24** Mae Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS) a lansiwyd yn Hydref 2001 yn dynodi plant sy'n derbyn gofal yn grŵp i'w flaenoriaethu. Mae llawer o awdurdodau yn sôn am brofiadau cadarnhaol gyda lleoliadau i blant mewn gofal preswyl a maeth a gefnogir gan dimau CAHMS, er ei bod hi'n bwysig cydnabod nad yw patrwm y ddarpariaeth yn gyson ledled Cymru ac nad yw'r gwasanaethau wastad ar gael i gefnogi plant a'u cynhalwyr. Mae argaeledd sefyllfaoedd iechyd meddwl preswyl ar gyfer plant yn gyfyng ac mae i hynny oblygiadau ar gyfer datblygu dull strategol at wella'r dewis o leoliadau a'u sefydlogrwydd.

**4.25** Mae i'r sector annibynnol swyddogaeth bwysig o ran darparu lleoliadau gofal preswyl a maeth. Mae awdurdodau wedi bod ers peth amser yn prynu lleoliadau preswyl yma ac acw i ddiwallu anghenion cymhleth plant unigol ac maent yn adrodd yn gynyddol eu bod yn prynu

lleoliadau gofal maeth ar sail debyg i wneud iawn am y diffyg yn eu darpariaeth nhw eu hunain. Yn aml nid yw'r trefniadau yma, er yn gyfleus, yn cynrychioli'r gwerth gorau nac ymarfer da. Gall lleoli plant y tu allan i ardal eu cartref gyfyngu ar gyfleoedd iddynt gael cyswllt â'u teuluoedd, eu ffrindiau a hyd yn oed eu gweithwyr cymdeithasol. Gall hefyd amharu ar drefniadau ar gyfer eu haddysg a gofal iechyd. Mae sawl awdurdod yn gwneud ymdrechion dwys i ddarparu lleoliadau mwy lleol i blant gan gynnwys camau i wella recriwtio a chadw cynhalwyr maeth a/neu gynyddu nifer y plant a leolir gyda pherthnasau.

**4.26** Lle mae angen yn dal i fod i awdurdodau barhau i brynu rhai lleoliadau yma ac acw dylai hynny ddigwydd yng nghyd-destun strategaeth lleoliadau a chynllun gwasanaethau plant cynhwysfawr. Dylai'r strategaeth a'r cynllun hefyd gydnabod mai lleoliad y tu allan i ardal eu cartref fydd yn diwallu anghenion asesedig rhai plant orau, ac mai lleoliadau cymharol ddrud sy'n rhoi'r gwerth gorau weithiau.

## Llety diogel

**4.27** Mae AGCC yn darparu cyngor ynghylch ceisiadau awdurdodau lleol am gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i leoli plant dan 13 mewn llety diogel. Er mai ychydig o geisiadau o'r fath a geir, mae amgylchiadau ac anghenion y plant dan sylw bob amser yn gymhleth. Mae gwaith wedi ei wneud i ddynodi materion allweddol a datblygu canllawiau drafft i'w defnyddio gan awdurdodau lleol wrth wneud ceisiadau. Cyhoeddir y canllawiau drafft cyn hir.

**4.28** Mae unig uned ddiogel awdurdod lleol yng Nghymru yn cadw pedwar lle ar gyfer plant sy'n cael mynediad dan ddarpariaeth Adran 25 *Deddf y Plant 1989* gyda'r rhan fwyaf o lefydd yn cael eu contractio i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r uned, ynghyd â'r rhai yn Lloegr, yn gwneud ystad ddiogel o tua 30 uned. Mae'r pryder ynghylch argaeledd lleoliadau diogel yn unedau diogel awdurdodau lleol a sefyllfaoedd iechyd yn cael ei ystyried yn y gwaith ar ddatblygu fframwaith strategol i wella sefydlogrwydd lleoliadau a chynyddu'r dewis o leoliadau.

## Mabwysiadu a gosod ar faeth


**4.29** Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r Adran Iechyd ar faterion yn ymwneud â mabwysiadu a gosod ar faeth a bydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn ystyried y safonau cenedlaethol a newidiadau mewn deddfwriaeth gan gynnwys swyddogaeth y Gofrestr Mabwysiadu.

**4.30** Ym mis Hydref 2001 cyhoeddodd y Llywodraeth y Mesur Plant a Mabwysiadu gan gyflawni addewid a roddwyd yn y Papur Gwyn – Mabwysiadu – Dull Newydd, a

gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2000, i gyflwyno deddfwriaeth newydd 2001 ar fabwysiadu. Gosododd allan y cynlluniau i hyrwyddo mwy o ddefnydd o fabwysiadu, i wella perfformiad y gwasanaethau mabwysiadu ac i roi plant yng nghanol y broses fabwysiadu. Cwympodd fersiwn blaenorol o'r Mesur pan ddiddymwyd y Senedd cyn Etholiad Cyffredinol 2001. Mae'r Mesur yn gosod allan gynigion arwyddocaol ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth a bydd y rhaglen ddatblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt yn adlewyrchu hynny.

**4.31** Bydd y pwyslais cynyddol ar hyrwyddo'r angen i awdurdodau sicrhau bod plant wedi eu hatodi'n ddiogel at gynhalwyr sy'n alluog i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn parhau. Mae mabwysiadu yn opsiwn pwysig i awdurdodau wrth ystyried sut i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal ac y mae eu rhieni yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i ailddechrau gofalu amdanynt o fewn cyfnod o amser sy'n briodol i ddiwallu angen y plentyn i ddatblygu cysylltiadau emosiynol diogel. Mae AGCC wedi chwilio am wybodaeth gan bob awdurdod yng Nghymru ynghylch agweddau allweddol ar eu gwasanaethau mabwysiadu. Atebodd pob awdurdod, ac er bod gwahaniaethau mewn diffiniad a dehongliad yn golygu y dylid defnyddio'r wybodaeth gyda gofal, mae yn tynnu sylw at rai materion arwyddocaol i'w dwyn ymlaen yn y rhaglen ddatblygu. Mae hyn a gwybodaeth arall, yn cynnwys gwybodaeth ystadegol, darganfyddiadau ymchwil a Chynlluniau Gweithredu Rheolaeth

Ffigur 4.2: Cyfran y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, a roir i'w mabwysiadu, 31 Mawrth 2000



Plant yn Gyntaf yn dangos bod lle i wella o ran sicrhau bod mabwysiadu yn cael y sylw dyledus fel opsiwn wrth gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a gostwng oediadau wrth weithredu cynlluniau.

**4.32** Yn gynnar yn 2001 rhoddwyd cryn sylw ar y cyfryngau i amgylchiadau plant sy'n cael eu cludo i'r DU gan bobl sy'n bwriadu eu mabwysiadu a'r trefniadau ar gyfer mabwysiadu rhwng gwledydd; canolbwyntiwyd i raddau helaeth ar un achos penodol. Cyflwynwyd newidiadau yn y gofynion ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu rhwng gwledydd o 30 Ebrill 2001. Cyhoeddodd y Cynulliad gylchlythyr *'Implementation of the Adoption (Intercountry Aspects) Act 1999: Intercountry Procedure'*, yn crynhoi'r newidiadau, a fersiwn diweddar o "Intercountry Adoption Guide: Practice and Procedure" yr Adran Iechyd. Mae'r Mesur Plant a Mabwysiadu yn corffori *Deddf Mabwysiadu (Agweddau Rhwng Gwledydd) 1999* (heblaw adrannau 1,2 a 7 a rhestr 1), gyda diwygiadau, o ran Cymru a Lloegr. Mae'r Mesur yn darparu rhagor o gyfyngiadau ar ddod â phlant i mewn i'r DU mewn cysylltiad â mabwysiadu, gyda'r nod o sicrhau bod trigolion Prydain yn dilyn y gweithdrefnau priodol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cyfyngiadau ar drefnu mabwysiadu a hysbysebu plant ar gyfer eu mabwysiadu, heblaw drwy asiantaethau mabwysiadu, ac yn gwahardd taliadau arbennig mewn cysylltiad â mabwysiadu.

**4.33** Lawnsiwyd Safonau Cenedlaethol a chod ymarfer ar gyfer gofal maeth ac mae'r rhaglen ddatblygu wedi cynnwys pwyslais ar gadw a recriwtio cynhalwyr maeth a gweithredu'r safonau a'r cod ymarfer.

### Plant yn gadael gofal

**4.34** Daeth deddfwriaeth newydd i rym ym mis Hydref 2001. Mae awdurdodau wedi gweithio'n unigol ac yn dorfol gyda phartner-asiantaethau i sicrhau bod gwasanaethau priodol yn eu lle i ddiwallu gofynion newydd ac anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae cynllunio ar gyfer arolygiad thematig o wasanaethau gadael gofal ar waith a bydd yn darparu gwybodaeth ynghylch sut mae'r newidiadau wedi eu rheoli.

## STRATEGAETH IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC

**4.35** Mae strategaeth y Cynulliad ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a lansiwyd yn Hydref 2001, yn cydnabod cyfraniad personél gwasanaethau cymdeithasol o ran hyrwyddo iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'n nodi rhai grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n derbyn gwasanaethau amddiffyn plant. Mae gweithredu'r strategaeth o arwyddocâd i wasanaethau plant

awdurdodau lleol, a bydd angen i'w cydweithrediad barhau.

## AMDDIFFYN PLANT

### Gweithio gyda'n Gilydd a Datblygu Arweiniad Atodol

**4.36** Mae'r Cynulliad wedi ymgynghori ynghylch arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag adnabod salwch ffug a salwch gwneud mewn plant gan gynhalwyr sydd â chyfrifoldeb rhieni, a fydd yn atodol i'r arweiniad yn *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant*. Yr Adran Iechyd arweiniodd y gwaith hwn, gan sefydlu grŵp aml-asiantaethol, gyda chynrychiolwyr wedi eu tynnu ar draws yr asiantaethau perthnasol ac adrannau'r llywodraeth, mewn ymateb i argymhelliad mewn adolygiad o ymarfer a gweithdrefnau yng Ngogledd Swydd Stafford.

**4.37** Mae'r Cynulliad hefyd wedi gweithio gydag adrannau'r llywodraeth i ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer cyfweliadau archwilio â thystion bregus, a fydd yn cymryd lle *Memorandwm Ymarfer Da* ac mae wrthi'n gweithio ar gomisiynu i baratoi deunyddiau hyfforddi cysylltiedig.

**4.38** Mae AGCC wedi parhau i dderbyn adroddiadau o adolygiadau achosion Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal a gynhaliwyd yn unol â Rhan 8 *Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Plant*. Mae'r Cynulliad yn comisiynu gorolwg o adroddiadau adolygiadau a dderbyniwyd yn y ddwy flynedd diwethaf. Dyma fydd y trydydd ymarfer o'r fath a bydd yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu. Mae'r Cynulliad hefyd wedi darparu cyfleoedd i asiantaethau sy'n aelodau o ACPC i ystyried goblygiadau'r newidiadau oddi ar yr arweiniad blaenorol ar adolygiadau o'r fath ac a oes lle i ddatblygu canllawiau yn y maes hwn.

**4.39** Mae ymchwil i batrymau cofrestriadau amddiffyn plant bron â bod wedi ei chwblhau a bydd yn cael ei dosbarthu yn ystod y flwyddyn hon. Mae Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2001 yn cynnwys gwybodaeth am ychwanegiadau at gofrestri amddiffyn plant ledled Cymru a thyniadau oddi arnynt.

**4.40** Tra bod yr ychwanegiadau a'r tyniadau yn amrywio'n arwyddocaol yn ôl awdurdodau maent yn dangos y gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag adolygu achosion plant. Mae'r awdurdodau sy'n dangos nifer uchel o dyniadau a gostyngiad yn nifer y plant a gynhwysir ar gofrestr wedi esbonio bod hyn yn rhannol o ganlyniad i adolygu mwy cyson.

Tabl 4.1 Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

| | Ar Gofrestr 31 Mawrth 2000 | Ymchwanegiadau | Tyniadau | Ar Gofrestr 31 Mawrth 2001 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 37 | 35 | 45 | 27 |
| Gwynedd | 108 | 97 | 116 | 89 |
| Conwy | 62 | 124 | 127 | 59 |
| Sir Ddinbych | 48 | 60 | 53 | 55 |
| Sir y Fflint | 96 | 94 | 107 | 83 |
| Wrecsam | 41 | 69 | 66 | 44 |
| Powys | 49 | 75 | 92 | 32 |
| Ceredigion | 46 | 60 | 58 | 48 |
| Sir Benfro | 99 | 98 | 133 | 64 |
| Sir Gaerfyrddin | 147 | 82 | 134 | 95 |
| Abertawe | 153 | 136 | 143 | 146 |
| Castell-nedd Port Talbot | 125 | 135 | 126 | 134 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 81 | 62 | 95 | 48 |
| Bro Morgannwg | 177 | 84 | 160 | 101 |
| Caerdydd | 442 | 201 | 276 | 367 |
| Rhondda Cynon Taf | 172 | 173 | 197 | 148 |
| Merthyr Tudful | 87 | 89 | 90 | 86 |
| Caerffili | 147 | 176 | 163 | 160 |
| Blaenau Gwent | 64 | 75 | 71 | 68 |
| Tor-faen | 75 | 141 | 122 | 94 |
| Sir Fynwy | 42 | 43 | 48 | 37 |
| Casnewydd | 122 | 144 | 125 | 141 |
| **Cymru** | **2,420** | **2,253** | **2,547** | **2,126** |

**4.41** Yn dilyn ymgynghori â Chyfarwyddwyr, rydym wedi cynnwys cyfarfodydd Cymru gyfan rheolaidd ar gyfer cydlynwyr amddiffyn plant awdurdodau lleol yn ein rhaglen ddatblygu, i hyrwyddo ymarfer da a gweithredu polisi amddiffyn plant yn effeithiol.

### Archwiliadau cymhleth

**4.42** Mae gan y rhan fwyaf o rannau o Gymru a Lloegr brofiad o archwiliadau mawr gan yr heddlu i gwynion bod oedolion a gyflogir i edrych ar ôl plant mewn sefyllfaoedd gofal wedi cam-drin plant yn gorfforol ac yn rhywiol. Oedolion a fu dan ofal awdurdodau lleol pan yn blant yw llawer o'r cwynwyr. Mae archwiliadau'r heddlu yn gofyn am gymorth awdurdodau a oedd yn gyfrifol am reoli sefydliadau lle gall troseddau fod wedi digwydd, ac sy'n debyg o fod â chofnodion plant unigol, personél a dogfennaeth arall.

**4.43** Mae'r awdurdodau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan yr archwiliadau hyn wedi ymrwymo i helpu'r heddlu â'u hymholiadau. Mae'r rhai sydd wedi ymwneud yn fwyaf uniongyrchol wedi, neu yn y broses o, sefydlu protocolau gyda'r heddlu sy'n datgan gweithdrefnau i helpu i reoli ceisiadau am fynediad at wybodaeth a gedwir ar gofnodion gwasanaethau cymdeithasol.

**4.44** Mae cymhlethdodau archwiliadau o'r fath, p'un ai mewn perthynas â digwyddiadau diweddar neu ymhellach i ffwrdd, yn cael eu cydnabod yn iawn. Ym mis Chwefror 2000 cyhoeddodd y Cynulliad Arweiniad Ymarfer i Archwilio Honiadau o Gam-drin yn erbyn Gweithiwr Proffesiynol neu Gynhaliwr mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno cynhaliodd AGCC seminar ar gyfer rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a chynghorwyr cyfreithiol a gwahoddwyd cynrychiolwyr o heddluoedd Cymru i'w mynychu. Roedd y seminar yn cysylltu â gwaith a oedd yn cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref i ddatblygu canllawiau ar gyfer archwiliadau o'r fath. Bydd adolygiad o'r arweiniad ymarfer yn digwydd yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ystyried y canllawiau a phrofiad awdurdodau lleol oddi ar eu cyflwyno.

## CYFIAWNDER IEUENCTID

**4.45** Mae gan AGCC ddiddordeb datblygol mewn ymarfer cyfiawnder ieuenctid ac mewn hyrwyddo ymarferion gweithio clir ac adeiladol rhwng timau troseddwyr ifanc a gwasanaethau eraill i blant mewn angen, gan gynnwys gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant anabl ac amddiffyn plant.

# I GLOI

4.46 Mae i reolwyr a staff yn y sector statudol ac annibynnol swyddogaeth hanfodol o ran dwyn agenda datblygu mewn gwasanaethau plant yn ei blaen o fewn eu hasiantaethau a'u partneriaethau nhw eu hunain, ac yn eu cyfraniad i ymarferion ymgynghori a gweithgorau.

Tra bod llawer o waith wedi digwydd, ac mae'n amhosibl i wneud cyfiawnder yn y bennod hon â phob maes lle mae datblygu yn digwydd, na hyd yn oed sicrhau bod pob un yn cael ei grybwyll yma, mae'r agenda at y dyfodol yn parhau i fod yn heriol. Mae gwaith newydd yn cynnwys ymateb i'r materion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yn adroddiad Ymholiad Ysbyty Brenhinol Bryste, Adolygiad Camau Diogelwch yn yr NHS a datblygiad Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau i blant.

## Gwella trwy arolygu

**5.1** Mae arolygu yn offeryn grymus ar gyfer codi safonau mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae’n ceisio darganfod yn uniongyrchol pa mor dda mae pobl yn cael eu gwasanaethu, sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae’n dal drych i’r awdurdodau, yn darparu argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, ac yn porthi polisi cenedlaethol.

**5.2** Fel rhan o strategaeth ehangach i hyrwyddo gwelliant mae arolygu’n gweithio orau. Rhaid iddo ennill hygrededd ymhlith y rhai mae’n eu harolygu, y rhai sy’n gyfrifol am wasanaethau a’r cyhoedd ehangach. Dylai fod yn rhan o berthynas barhaus rhwng AGCC, yr awdurdodau sy’n cael eu harolygu a phartïon eraill sydd â diddordeb, gyda phawb yn barod i dderbyn eu cyfrifoldebau, i wynebu problemau’n agored ac i chwilio am ffyrdd adeiladol ymlaen.

**5.3** Rhaid i arolygwyr wneud yr hyn a ddywedant. Mae’r bennod hon yn gosod allan y ffyrdd y mae AGCC wedi gwella arolygiadau yn y blynyddoedd diwethaf, sut mae arolygiadau – yr un fath â gwasanaethau – yn gorfod ymateb i amgylchedd sy’n newid yn gyflym, a sut mae arolygu yn gymorth i ddod â gwelliannau mewn gwasanaethau.

### Y rhaglen arolygu

**5.4** Nod prif raglen arolygu gwasanaethau AGCC, y cytunwyd arni rai blynyddoedd yn ôl, yw gweithio’n systematig drwy bob awdurdod lleol a’r holl brif feysydd gwasanaeth. Mewn cyfnod o bum mlynedd mae pob awdurdod lleol yn derbyn:

- cyd-adolygiad (wedi ei gynnal gan dîm arbennig ar ran AGCC a’r Comisiwn Archwilio) o swyddogaethau cyffredinol gwasanaethau cymdeithasol
- arolygiad mawr o wasanaethau plant
- arolygiad mawr o wasanaethau oedolion.

**5.5** Mae ffocws arolygiadau gwasanaethau plant ac oedolion yn newid o bryd i’w gilydd, i archwilio gwahanol agweddau ar wasanaethau. Yn 2000-1 cynhaliwyd arolygiad pellach gennym o reolaeth ac ymarfer gwasanaethau plant mewn un awdurdod, gan ffocysu ar wasanaethau i blant mewn angen, a dechreuwyd ar gyfres newydd o arolygiadau o wasanaethau gwarchod plant. O ran gwasanaethau oedolion, daeth ein cyfres o arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl i ben, a dechreusom ar gyfres ar wasanaethau i bobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd.

**5.6** Rydym wedi datblygu arolygiadau thematig fel ffordd o edrych ar wasanaethau ledled Cymru yn hytrach nag mewn awdurdodau unigol. Mae’r rhain yn addas iawn ar

gyfer meysydd pynciau nad ydynt yn ffitio i brif fframwaith arolygu gwasanaethau ac ar gyfer meysydd o ddiddordeb ar adeg arbennig. Llynedd cafodd ein gwaith ar arolygu gwasanaethau dyletswyddau brys allan-o-oriau ei gwblhau ac fe gyhoeddwyd adroddiad y cyd-adolygiad gydag Estyn ar addysg plant sy'n derbyn gofal.

**5.7** Bydd y rhan fwyaf o'n harolygiadau rheoleiddio – ar gyfer sefydliadau neu wasanaethau sy'n galw am gymeradwyaeth benodol gan y Cynulliad – yn mynd yn gyfrifoldeb i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Yn y cyfamser rydym wedi parhau i arolygu'r ddau gartref plant gwirfoddol, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a'r un uned ddiogel i blant sydd yng Nghymru.

## Dulliau Arolygu

**5.8** Mae'r rhan fwyaf o arolygiadau yn cael eu cynnal yn erbyn safonau a meini prawf a ddatganwyd ymlaen llaw. Ar gyfer arolygu prif wasanaethau rydym wedi gwneud y rhain yn fwy cyson, i sicrhau bod pob arolygiad yn edrych mewn ffordd debyg i weld sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu hadnoddau, eu cyflwyno, eu monitro a'u hadolygu.

**5.9** Rydym wedi gwneud ein dulliau o arolygu yn fwy cyson, systematig a gwrthrychol ac wedi rhoi iddynt ffocws cliriach ar y canlyniadau i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau. Mae pob arolygiad o brif wasanaeth yn cynnwys arolwg holiadur i'r defnyddwyr a'r cynhalwyr (ac weithiau i gyfeirwyr), sampl ffeil achosion strwythuredig, a chyfweliadau mewn achosion dethol gyda'r unigolion perthnasol, yn ogystal â chyfres eang o gyfweliadau.

**5.10** Mae ansawdd yr arolygiadau'n dibynnu'n hollbwysig ar y rhai sy'n eu cyflawni. Yn ychwanegol at ein harolygwyr ni'n hunain rydym wedi sefydlu panel o arolygwyr cymeradwy y telir ffi iddynt, sy'n ymuno â'n timau ni yn ôl y galw. Maent yn ychwanegu'n werthfawr at ystod y profiad y gallwn dynnu arno. Mae timau arolygu hefyd yn cynnwys aseswyr lleyg, wedi eu recriwtio a'u haseinio ar ein rhan gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**5.11** Mae cod ymddygiad gan bob un o'n harolygwyr, sy'n mynnu eu bod yn cario cerdyn adnabod swyddogol, yn trin pawb yn gwrtais a chyda pharch, yn gwrando'n astud ar yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt, ac yn parchu cyfrinachedd unigolion.

## Dyfarniadau ac adroddiadau

**5.12** Un o brif swyddogaethau arolygu yw darparu sicrwydd cyhoeddus ynghylch ansawdd gwasanaethau. Rhaid i arolygiadau felly arwain at ddyfarniadau wedi eu mynegi'n glir, sy'n llifo'n deg ac yn rhesymegol o ddarganfyddiadau arolygiadau.

**5.13** Yn dilyn ymgynghori y llynedd, rydym bellach yn cyhoeddi grid dyfarniadau yn ein hadroddiadau, yn dangos yn gyffredinol pa mor dda mae pobl yn cael eu gwasanaethu a beth yw'r rhagolygon am welliant. (Yr un grid yw hwn ag a ddefnyddir yn

adroddiadau cyd-adolygiadau, ac mae'n debyg i'r un a ddefnyddir yn arolygiadau'r Gwerth Gorau). Yr un fath â'r tîm cyd-adolygu, rydym wedi gosod allan y meini prawf y byddwn yn gwneud y dyfarniadau hyn yn eu herbyn.

### Cyd-destun newidiol arolygu

**5.14** Mae newidiadau mawr yn effeithio ar y cyd-destun y mae arolygiadau AGCC yn digwydd ynddo. Mae'r gyriad tuag at wasanaethau mwy cydunol yn galw am ymateb cyfochrog gan yr arolygiaethau. Cyflwynodd *Deddf Llywodraeth Leol 1999* ofynion gwerth gorau ar gyfer awdurdodau lleol. Mae cytundebau polisi rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol a datblygiad fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi cyflwyno dimensiynau newydd i arfarniad gwasanaethau. Crëwyd arolygiaethau newydd, sef Gwasanaeth Arolygu'r Gwerth Gorau (rhan o'r Comisiwn Archwilio), y Comisiwn ar gyfer Gwella Iechyd a chyn hir Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae archwilwyr yn datblygu eu swyddogaeth i gynghori awdurdodau ynghylch rheoli perfformiad a monitro ymateb i graffu allanol.

**5.15** Cynhaliodd AGCC ei arolygiadau gwerth gorau cyntaf ym mis Mawrth 2001. Mae'r arolygiadau yma yn dilyn adolygiadau yr awdurdodau eu hunain o wasanaethau ac yn gofyn am ddyfarniad cyhoeddus yn seiliedig ar arfarniad annibynnol o'r gwasanaeth gan arolygwyr. Maent yn ychwanegol at brif raglen AGCC ac yn galw am gydbwysedd gofalus, i osgoi gormod o faich arolygu tra'n bod yn ddigon trwyadl i gyfiawnhau'r dyfarniad. Mae'r arolygiadau hyd yn hyn yn dangos bod rhai awdurdodau yn gwneud defnydd da o'r gwerth gorau i borthi cynllunio a chomisiynu gwasanaethau, a rhai penderfyniadau gwleidyddol anodd. Mae eraill nad ydynt yn cysylltu materion gwasanaeth penodol â materion ehangach, neu nad ydynt yn herio eu patrymau cyfredol o wasanaeth yn effeithiol.

**5.16** Wrth i'r fframwaith rheoli perfformiad ddatblygu, bydd data gwasanaethau yn darparu gwell gwybodaeth ar gychwyn arolygiadau, ac yn cyfrannu at arfarniad perfformiad mwy cynhwysfawr. Efallai y byddant yn gallu cael eu targedu'n well i ateb cwestiynau arbennig ac i archwilio gwahaniaethau ymddangosiadol mewn perfformiad rhwng awdurdodau.

**5.17** Mae AGCC yn parhau i gydweithredu ag arolygiaethau ac archwilwyr eraill i ddarparu archwiliad mwy dealladwy o wasanaethau ac i sicrhau bod argymhellion yn ffitio o fewn strategaethau cytunedig ar gyfer gwelliannau. Y llynedd fe fuom yn cymryd rhan mewn arolygiadau peilot aml-ddisgyblaethol o dimau troseddu ieuenctid (un yn Lloegr, un yng Nghymru). Rydym ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn arolygiadau aml-ddisgyblaethol o'r Gwasanaeth Cefnogi a Chynghori Llysoedd Plant a

Theuluoedd newydd (CAFCASS). Rydym yn trafod posibilrwydd gwaith cyd-arolygu gyda'r Comisiwn Gwella Iechyd ac yn cynllunio rhagor o weithio ar y cyd gydag Estyn.

**5.18** Rydym yn bartneriaid gyda'r Comisiwn Archwilio ac Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr ar gyfer comisiynu'r cyd-adolygiadau o'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Adran Iechyd wedi dechrau adolygiad i fod yn gymorth i benderfynu a ddylid addasu'r rhaglen honno i gymryd y cyd-destun newidiol i ystyriaeth, unwaith y bydd y cylch pum mlynedd cyfredol wedi ei gwblhau.

### Gwneud yn siŵr bod gwelliannau'n digwydd

**5.19** Cyn y gall arolygiadau wneud gwahaniaeth rhaid iddynt roi darlun credadwy o sut mae pethau, beth sy'n cael ei wneud yn dda a beth mae angen ei wella. Rhaid i arolygwyr gyfleu negeseuon clir ac ennill ymrwymiad y rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaethau i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

**5.20** Mae ymrwymiad AGCC i welliant yn parhau y tu hwnt i'r arolygiad ei hun. Mewn ymateb i'r darganfyddiadau a'r argymhellion, mae'r awdurdod yn paratoi cynllun gweithredu. Yn y flwyddyn a aeth heibio mae AGCC wedi cynnal sawl ymarfer dilyn-i-fyny i wirio cynnydd. Bu gwelliant ym mhob achos – nid bob amser ar gyfer pob argymhelliad ond mewn rhai achosion gwelliant sylweddol mewn meysydd allweddol.

Pan fo pryder mwy difrifol, mae AGCC wedi ymwneud yn agosach, i fonitro cynnydd yn amlach ac i gynghori awdurdodau ar sut i fynd i'r afael â'u problemau, gan helpu weithiau i gael trefniadau ar gyfer cefnogaeth ychwanegol.

**5.21** Mae AGCC, yn aml gydag eraill, yn defnyddio darganfyddiadau arolygiadau ac archwiliadau yn fwy cyffredinol i hyrwyddo datblygu. Dilynwyd y gynhadledd a gynhaliwyd ym mis Hydref 2000 i lansio adroddiad gorolwg y tîm cyd-adolygu o'r chwe adolygiad cyntaf yng Nghymru, gan ddigwyddiadau eraill. Ymunodd y Cynulliad, y tîm cyd-adolygu, y Comisiwn Archwilio ac eraill gyda Syniad (asiantaeth gwella a datblygu llywodraeth leol yng Nghymru) i hyrwyddo cyfres o seminarau ar arweinyddiaeth yn y gwasanaethau cymdeithasol. Yn fwy diweddar mae'r Comisiwn Archwilio a'r Cynulliad wedi noddi digwyddiad ar weithio ar y cyd rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd. O fewn i AGCC ei hun mae'r rhaglenni arolygu a datblygu yn dod yn fwy cyd-gysylltiedig fel bod y naill yn cyfrannu at y llall.


**5.22** Mae arolygu wedi bod yn newid, yr un fath â'r gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi ceisio ei wneud yn fwy agored, yn fwy tebyg i fusnes, wedi ei ffocysu yn gliriach ar anghenion defnyddwyr a chynhalwyr, yn fwy cydunol, yn fwy ymatebol i amgylchiadau newidiol, ac yn fwy effeithiol. Mae gwella arolygu yn gymorth i wella gwasanaethau.

# Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol


## Cyllid

Mae gwariant ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi codi o £430 miliwn yn 1994/5 i £631.75 miliwn in 1999/2000 (Ffigur A1). Cyfrifwyd am lawer o'r cynnydd hwn bellach gan y cynnydd mewn trosglwyddiadau o'r Adran Nawdd Cymdeithasol flaenorol dan y diwygiadau gofal cymunedol. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio mewn man arall y pwysau o ran costau ar wasanaethau gofal cymunedol ond mae'r angen i fuddsoddi rhagor mewn gwasanaethau plant wedi ei gydnabod yn eang yn ystod gweithgareddau'r Tribiwnlys yng Ngogledd Cymru ac ar ôl cyhoeddi ei ddarganfyddiadau 'Ar Goll mewn Gofal'.  Mae'r ddwy set yma o bwysau yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth i gyflawni'r gwerth gorau mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Ffigur A1: Gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol personol yn ôl grŵp cleientiaid



**Ffigur A2: Gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol personol yn cynnwys Cyllid Gofal yn y Gymuned**



## Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2000/01

Cartrefi plant gwirfoddol: 2000/01

Darpariaeth Addysgol i Blant Sy'n Derbyn Gofal

Arolygu Gwasanaethau Plant Rheolaeth ac Arferion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gwasanaethau Salwch Meddwl i Oedolion Sir Ddinbych

## Adroddiadau a gyhoeddwyd er Mis Mawrth ar arolygiadau a wneud ym 2000/01

Gwasanaethau Salwch Meddwl i Oedolion Blaenau Gwent

Gwasanaethau Salwch Meddwl i Oedolion Abertawe

Gwasanaethau Salwch Meddwl i Oedolion Ym Mhowys

Arolygu Rheolaeth ac Arferion Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir y Fflint

Gwasanaethau Dyletswydd Brys y Tu Allan i Oriau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Adolygiad o Uned Gofrestru ac Archwilio Abertawe a Chastell-Nedd Port Talbot

## Rhaglen Arolygu 2002/03

| Teitl yr Arolwg | Awdurdod |
|---|---|
| Cynllunio ar gyfer parhad – cynllunio hir dymor ar gyfer plant yng ngofal yr awdurdodau lleol | Wrecsam, Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn a Rhondda Cynon Taf |
| Gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu | Ceredigion, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd |
| Arolygiadau thematig: | Gorolwg Cymru gyfan |
| Gwasanaethau gadael gofal, Gwaith cymdeithasol ysbytai (wedi ei ddwyn ymlaen o'r llynedd) | |
| Adolygiadau ar y cyd | Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Sir Fynwy |

## Strwythur

**Graham Williams**
**Prif Arolygydd**

---

**Uned Ddatblygu - oedolion**
Bob Woodward
**Dirprwy Brif Arolygydd**

Gofal Cymunedol a Thymor Hir; Gwasanaethau i bobl hŷn a phobl anabl; Gwasanaethau i Ofalwyr; Cyfle Cyfartal; Epilepsi

Cydweithio gydag Iechyd, Hyblygrwydd Newydd, Gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu. Gwasanaethau i bobl â salwch meddwl; HIV/AIDS/Cam-ddefnyddio Sylweddau

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Safonau Ansawdd

Cyngor Gofal Cymru, Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol

Prosiect Rheoli Perfformiad

---

**Uned Ddatblygu - Plant**
Maria Michael
**Dirprwy Brif Arolygydd**

Gorolwg, Cynlluniau Gwasanaethau Plant, Adroddiad *Ar Goll Mewn Gofal* ar Dribiwnlys Gogledd Cymru, Cyswllt â Chyrff Proffesiynol, Cyrff Gwirfoddol Gofal Plant, Gwasanaethau Gwarcheidwad ad Litem a Swyddogion Adrodd

Plant yn Gyntaf, Asesu a Chynllunio Gofal i Blant sy'n derbyn gofal, Mabwysiadau, Maethu, Gweithdrefnau Eiriolaeth a Chwyno, Gadael Gofal, Ymchwil Gwasanaethau Plant

Amddiffyn Plant, Tribiwnlys Gogledd Cymru, Ymchwiliadau Cymhleth, Chwythu'r Chwiban, Cyfweld Ymchwiliol

Cyfiawnder Ieuenctid, Strategaeth Lleoli, Gofal Preswyl, Iechyd Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau i Blant ag Anabledd/Anawsterau Dysgu, Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd.

**Cangen Weinyddol AGCC**
Graham Bennett

---

**Yr Uned Arolygu**
Richard Tebboth
**Dirprwy Brif Arolygydd**

Yr holl Arolygiadau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys

Gwerth Gorau
Adolygiad ar y Cyd
CAFCASS

## TRYDYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL GRŴP YMGYNGHOROL YR AROLYGIAETH, AM Y FLWYDDYN 2000-1

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol yr Arolygiaeth ym 1995, yn unol ag egwyddorion Siarter y Dinesydd. Ei fwriad cyffredinol yw gwneud rhaglen arolygu genedlaethol AGCC yn destun gofal llywodraeth ganolog a lleol a chyrff lleyg sy'n ymwneud â hi. Ei gylch gorchwyl yw:

1. ystyried cynigion yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r rhai sy'n cydweithio yn y maes
2. adolygu arolygiadau sydd wedi digwydd a'r ymatebion i'r arolygiadau hynny
3. ystyried o bryd i'w gilydd y rhychwant ar gyfer gwaith yr Arolygiaeth yn y dyfodol.

Statws corff anadrannol sydd i'r grŵp (oddi ar 1 Gorffennaf 1999 mae'n gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad).

Sefydlwyd y Grŵp ar y cychwyn am gyfnod o dair blynedd. Fe'i hailsefydlwyd ym 1998 am gyfnod pellach o dair blynedd.

## Aelodaeth

Aelodau'r grŵp yw:

Cyng Anita Lloyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen (enwebwyd gan y WLGA)

Cyng Mike Hedges, Dinas a Sir Abertawe (enwebwyd gan y WLGA hyd Gorffennaf 2001 pan dynnodd yn ôl)

Colin Preece, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Castell-nedd Port Talbot (enwebwyd gan ADSS)

Gary Birch, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen (enwebwyd gan ADSS i gymryd lle Michael O'Leary)

Yvonne Apsitis, Cyfarwyddwraig a rheolwraig DayBreak Wales (darparwyr annibynnol) - Cadeirydd

Mario Kreft, perchennog a rheolwr cartrefi preswyl a nyrsio (darparwr annibynnol) – Dirprwy Gadeirydd

James Crowe, Cyfarwyddwr SCOVO (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

Eirianwen Davies, cynhaliwr a gweithiwr gwirfoddol (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

Stuart Davies, swyddog gwybodaeth ac eiriolaeth, RNIB (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

Pedr McMullen, prifathro wedi ymddeol a chynhaliwr (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

Sherrall Morris, gweithiwr prosiect, Anabledd Cymru (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

Margaret Thomas, cynhaliwr a gweithiwr gwirfoddol (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

Vanessa Webb, Cyfarwyddwraig Cyngor Deillion Cymru (buddiannau defnyddwyr/cynhalwyr)

## Cyfarfodydd

Mae'r Grŵp wedi cyfarfod ar ddau achlysur, ar 11 Ragfyr 2000 yng Nghaerdydd ac ar 9 Gorffennaf 2001 yn Llanarthne. Mae nodiadau'r cyfarfodydd ar gael ar gais oddi wrth AGCC.

## Ymdrin â busnes

Mae'r Grŵp yn gweithredu yn unol â'i gylch gorchwyl a chyda chod ymarfer yn seiliedig ar fodel a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Grŵp wedi mabwysiadu egwyddorion agoredd yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Wybodaeth Gyhoeddus. Mae Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu pob cyfarfod ac mae'r Dirprwy Brif Arolygydd (Arolygiadau) yn gweithredu fel ysgrifennydd.

## Cyllid

Nid oes gan Grŵp Ymgynghorol yr Arolygiaeth gyllid ei hunan. Nid yw ei aelodau yn cael eu talu. Mae costau gweinyddol yn cael eu diwallu o gyllidebau dirprwyedig a rhaglenni AGCC.

## Materion a Drafodir

## Cynigion ar gyfer arolygu

Trafododd y Grŵp ddogfen ymgynghorol AGCC ar y rhaglen arolygu ar gyfer 2001-2. Roeddent yn cydnabod swyddogaeth bwysig y rhaglen o ran rhoi sicrwydd i'r Cynulliad a'r cyhoedd ynghylch ansawdd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac o ran helpu i borthi polisi a datblygiad gwasanaeth. Cafwyd cefnogaeth gref ganddynt i'r cynigion i arolygu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anableddau, gan gynnwys anableddau dysgu.

Ystyriodd y Grŵp bapur ymgynghorol ar ddyfarniadau a wnaethpwyd gan gyd-adolygiadau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Roeddent yn croesawu'r eglurder ychwanegol mewn dyfarniadau, i awdurdodau a'r cyhoedd.

Yn fwy cyffredinol, cynigiodd y Grŵp y dylai arolygiadau a chyd-adolygiadau gymryd mwy o gyfrif o swyddogaeth y sector annibynnol a gwirfoddol o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol, a'r

ffordd y mae awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr eraill.

## Adolygu arolygiadau a'r ymateb i arolygiadau

Adolygodd y Grŵp flwyddyn arolygu 2000-1. Yn ogystal ag arolygu gwasanaethau plant a gwasanaethau salwch meddwl oedolion, roedd y rhaglen wedi cynnwys am y tro cyntaf arolygiad o dîm troseddwyr ifainc ac arolygiadau'r Gwerth Gorau. Roedd yr arolygiadau wedi dangos gwahaniaethau amlwg yn safonau'r gwasanaethau, o fewn a rhwng awdurdodau.

Trafododd y Grŵp adroddiad y Prif Arolygydd ar gyfer 2000-1 ac adroddiad gorolwg y cyd-adolygiad Dysgu'r Gwersi. Roedd y ddau yn adlewyrchu cyfnod o her sylweddol i wasanaethau cymdeithasol a'r ddau yn gosod agendâu clir ar gyfer gwelliannau. Trafododd y Grŵp broblemau o ran cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys problemau staffio. Maent yn dal yn bryderus ynghylch yr angen i bobl mewn angen dderbyn gwasanaethau dibynadwy o ansawdd da.

Mae'r Grŵp yn credu'n gryf y dylid defnyddio darganfyddiadau arolygiadau a chyd-adolygiadau i gyflawni gwelliannau. Trafodwyd sut y mae hynny'n digwydd eisoes, drwy gynlluniau gweithredu yn ymateb i argymhellion a thrwy arolygiadau a monitro dilyn i fyny. Byddai'n dda ganddynt weld ffyrdd eraill o rannu gwersi, gan gynnwys enghreifftiau o ymarfer da.

## Gwaith yr arolygiaeth yn y dyfodol

Derbyniodd y Grŵp adroddiadau ar sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a Chyngor Gofal Cymru. Bydd i'r cyrff hyn swyddogaethau pwysig, ategol i rai AGCC, o ran cynnal a chodi safonau.

Mae Grŵp Ymgynghorol yr Arolygiaeth ei hun yn cael ei adolygu, yng ngoleuni y datblygiadau hyn ac ymrwymiad y Cynulliad i adolygu pob corff a noddir gan y Cynulliad.

Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5655
e-bost: ssiw@wales.gsi.gov.uk